

“Tu hwnt i’r Llen.”

PRYDDEST GYSTADLEUOL

AR DESTYN Y GADAIR YN

Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, 1896.

GAN J. JENKINS (GWILI).

“ALL VISIBLE THINGS ARE EMBLEMS.”

LLANELLI:

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA’R “MERCURY,” HEOL-Y-PARC.


1896.

John Brace

17 Woodville R^d

Pontardulais

❧ NODIAD. ❧




GAN fod y feirniadaeth a gyhoeddodd Berw yn yr "Haul" yn rhoddi golwg weddol o deg ar y cynllun a fabwysiadwyd, cyhoeddîr hi yma, gan hyderu y bydd yn gynhorthwy i'r darllennydd cyffredin i ddeall y Bryddest.

Y mae yr awdwr yn falch o'i safle, ar y cyfan, ac er y buasai yn dda ganddo pe buasai ei feirniaid, nid yn alluog i ddeall ei gyfansoddiad ef, ond yn dangos eu bod yn meddu cyfarwydd-deb â llenyddiaeth fwyaf ardderchog Ewrop, o Descartes a Spinoza i lawr trwy Kant, Fichte, Schelling, a Hegel, i Goëthe a Carlyle, eto y mae yn teimlo yn sicr fod ei feirniaid wedi gwneyd cyfiawnder yn ol eu goleu.

Dywedodd mwy nag un o'r beirniaid fod y gystadleuaeth o safon is nag arferol. Wrth gwrs, y mae hynny yn gysur i galon-nau y rhai fuont fuddugol yn yr eisteddfodau a fu. Trueni fod yr awen wedi efelychu Jupiter, er dyddiau cystadleuol fy meirniaid, "*et passim rivis currentia vina repressit.*"

Eto, y mae yr hogyn yn hyderus y daw dydd y bydd Cymru yn gallu gwerthfawrogi barddoniaeth y byd—dydd y bydd yn fwy parod i dderbyn *speculation* o'r natur uchaf nag ailadroddiadau o greddo farw. Blin oedd ganddo weled ei feirniaid yn synnu ei fod yn dweyd fod yr ysbryd noeth wedi gwisgo corff yn y greadigaeth. Wrth gwrs, nid oedd yn honni gwreiddioldeb yma; ond y mae yn amlwg fod dau neu dri o'i feirniaid heb gyfarfod â syniad sydd mor adnabyddus i feddylwyr, er dyddiau Schelling a Hegel.

Blin oedd ganddo weled ei feirniaid yn gwelwi wrth ei glywed yn pregethu rhywbeth tebyg i'r "Larger Hope." Pe bae wedi gwneyd hynny, ni fyddai hynny o wahaniaeth iddynt hwy; ond cenfydd y darllenydd mai y gwrthwyneb sydd yn y Bryddest. Ond pa ddiben ymhelaethu? Bellach, wele'r Bryddest gerbron.



+✂ Y FEIRNIADAETH. ✂+

'VATES.'—Dyma waith athronydd. Dechreua'r awdwr ei gerdd gyda 'breuddwyd,' yn yr hwn y ceir *ef* yn ymddyddan â *lili* yng nghylch gwaith *meddwl*, a hithau yn dadleu dros swydd *mater*. Gofyna i'r lili, 'Ai nid myfi sy'n dy wneuthur di?' a dyry hithau yr un gofyniad iddo yntau. A chyn hir cydnebydd ef:—

'Myfi wnaeth y lili, a'r lili fyfi.'

Yn y cyflwr hwn, gwel fod *llen* ar ei 'enaid a'r lili wen.' Traetha am y meddwl fel 'yn gwneuthur pob bywyd yn fyw, yn fyw. Dywed:—

'Ha, meddwl sy'n rhoddi i'r lili ei llef,
Ond beth wna'r lili yn ol iddo ef?'

Ac etyb mai prydfferthwch natur sydd yn *dadblygu* ei enaid ef. Edrycha ar y cread yn ei berthynas ag Ysbryd Duw, ac yna sanga dir peryglus fel yr addefa ef ei hun:—

'Olldduwiaeth, olldduwiaeth, sibrydir i ni,
Gwylia a gwel pa le y cerddi di.'

Ar ol hyn cais gan ei *feddwl* rodio'r llwybrau a rodiodd Duw cyn hyn, i ymofyn am 'ysbryd y gwir:—

'Nes gwelaf y ddameg yn peidio a bod,
Ac ysbryd y gwir i'm gwydd yn dod,
Yn ddwyfol noeth.'

Yr hwn ond ei gaffael a barai i'w ysbryd yntau ddymuno am
'denuo y babell o bridd :—

'I beidio a bod yn ddameg fyw,
I fod yn wirionedd noeth fel Duw.'

Yna gwel Dduw yn *natur* :—

'Ai dim ond un berth
'A welodd Jehofa erioed yn werth
Dyfod i'w brig yn fflamau byw ?
Mae pob un o'r perthi yn llosgi gan Dduw !'
* * * * *
'Mae yn yr holl berthi,—tu hwnt i'r llen.'

Gwel hefyd 'ysbryd' yn mhobpeth, hyd yn oed yn y ddallhuan ;
a dywed yn gyffredinol :—

'I minau nid ydyw "aderyn" ond "llef"
Rhyw ysbryd gorlawen o ganol y nef !'

Cais dreiddio i gyfrinion Bod a Byw. Dywed am fater mai
'gwisg weledig' rhyw ysbryd tu hwnt ydyw—fod y mater yn
amserol, ond :—

'Yr Ysbryd sydd
Byth yn preswyllo'r tragwyddol ddydd.'

Am yr ysbrydol mae dyheuad dyn :—

'Rhyw ysgol Jacob yw'r byd i gyd
I'm codi i ganol ysbrydol fyd.'

Ac yno, tu hwnt i'r llen, y mae'r cyfnewidiol yn ymgolli yn yr
anghyfnewidiol.

Traetha yng nghylch *amser*, a pherthynas dyn ag amser, a
dywed na 'throedia' amser

'I nen
Ysbrydoedd anfarwol, tu hwnt i'r llen.'

Traetha hefyd am *le*, er dysgu fod

'Yr enaid a'i droed
Ar fyd na welodd seronydd erioed,'

a'i fod yn ehedeg ar edyn ysbrydol i'r eangder annherfynol.

Gofyna 'pa beth ydyw *harddwch*, a pheth ydyw *lliw*?' a thraetha arnynt. Y mae ganddo gyfeiriad hynod at Dduw cyn y cread yn 'gwrido am ei fod yn noeth,' ac yn penderfynu gwneyd corff iddo ei Hun:—

'Gwelaf yr ysbryd anfeidrol ddoeth
Yn gwrido wrth deimlo ei Hunan yn noeth;
Yn gwaeddi uwch ben ei feddyliau diri,
"Corff barotoaf o'r diwedd i mi."

Gofyna hefyd:—

'Beth yw y cread ond corff i Dduw—
Corff mae Ei feddwl fel gwaedlif byw,
Tragwyddol, yn rhedeg trwyddo o hyd?'

Dysga fod Duw yn canfod ei Hun yn mhobpeth. Dengys a ganlyn ogwydd y gwaith:—

'Beth ydyw cread-ymdaith Duw?
Pa fodd y mae Ef yn ei gorff yn byw—
Ei gorff amserol? yw'r Ysbryd mawr
Yn ymwybodol o'i Hunan yn awr?
Wedi gadael trag'wyddol ddydd y nef,
Beth ddaw o'i '*afradlon*' fywyd Ef?'

Onid yw peth fel yna yn rhyfygus, ac yn ymylu ar y cableddus?

Dechreua'r awdwr yr ail ran o'i bryddest drwy athronyddu yng nghylch ei fodolaeth ei hun. Ymhola:—

'Yr wyf yn bod —ond pa beth wyf—Myfi?'

* * * * *

'Pa beth yw enw? Onid gwisg
A lenwir byth gan ysbryd yr Efe?
Nid ef yw'r enw. Y mae ef yn fwy
Na mil o enwau.'

Nid y corff na'r enaid yw. Mae'r corff yn wisg iddo, a'r enaid yn ddarlun o hono. Dyma syniad rhyfedd:—

"Mae'r gwirioneddau sydd yn mywyd Duw
Yn cael eu hymgorffori ym mhob dyn byw
Ar hyd yr oesau. Y mae Duw mewn cnawd
Yn mynych ymgnawdoli.'

Y syniad yw, os nad wyf yn camgymmeryd, mai meddwl yn ymgnawdoli ar y ddaear yw *Efe*—sef hanfod dyn—y ‘Myfi’ y sonia'r ymgeisydd am dano :—

‘Meddwl newydd Duw
I'r byd yw Dyn yr Oes; a meddwl mawr
Pob oes a Thrag'wyddoldeb ydyw'r Crist.’

Yna dywed fod Hunan arall (y drwg) ynddo :—

‘Anhebyg i fy Hunan dyfnaf pur;’

ac el yn mlaen i ddysgu yr athrawiaeth o *heredity*—fod ynddo ef, yr hyn a etifedda o'i gyndadau :—

‘Mae cenedlaethau yn cerdded ynof fi!
Mae'm tad, a'm mam, a'm teidiau ar y stryd,
Bob tro y croesaf riniog ty fy mam.’

Traetha yng nghylch yr ymdrech rhwng ei Hunan du a'i Hunan pur. Onid yw geiriau fel hyn yn hynod o eithafol? :—

‘Drachefn, drachefn mi welaf uffern fawr
A nefoedd fwy mewn dwys wrthryfel maith
O fewn fy enaid. Ac nid breuddwyd yw :
Yr wyf fy hun yn *ddiafol* ac yn *Dduw*!
Yn *ddiafol* mewn darfodedigaeth hir,
Yn *Dduw* sy'n tori bedd i *Lusiffer*!’

Trwy ei fyfyrion, pa fodd bynag, tybia ei fod wedi gweled

‘Ystyr hanes rhyfedd dyn.’

Dywed mai ‘effaith yw pob peth,’ a gofyna, ‘Pa le mae'r Achos mawr?’ Ca ddyn yn ymbalfalu am ‘yr Achos diachos,’ ac yn dod yn addolwr. Mae gwrthddrychau'r addoliad yn amrywio, canys

‘Y bod a addola
Ei swynol bwr syniad.’

Addola yn ol ei syniadau, heb ddadguddiad.

Sonia am yr allor, a'r aberth sydd yn waith gwastadol yr Hunan goreu, yn nghyd a'r dadguddiad a roddes Duw o hono ei Hun i Israel, a'r trefniadau crefyddol roes iddynt. Sonia am y mynediad ‘tu fewn i'r llen,’

‘I gwrdd â sanctaidd Dduw ger bron yr Arch.’

Rhaid oedd wrth yr allor a'r aberth. Nid oedd yr aberthau ond arwyddluniol. Yr oedd 'ysbryd ym mhob un,' tu hwnt i'r llen; a phob un yn brophwydoliaeth :—

'Tu hwnt i'r llen mae ysbryd yn mhob un
O'r myrdd aberthau hyn.'

Mae yn canu'n dda iawn ar grefydd Israel. Cysgodau oedd y trefniadau oll, a'u gwir ystyr 'tu hwnt i'r llen.'

Yn y drydedd ran o'r gerdd ceir rhai syniadau dyeithr a rhyfedd :—

'Gwelaf yr Ior fu yn cysgu yn hir
Mewn blodau amryliw hyd feusydd y tir—
* * * * *
Yr Ior a ddeffrodd o'i gwsg mewn dyn,' &c.

Wedi son am ymgawdoliad y Mab, dywed :—

"Ymgawdoliadau o Brydferth Dduw
Yw'r gwanwyn a'r myrddiwn blodion byw !"

Dywed yr un peth hefyd am yr adar ! Crybwylla am fywyd dihalog y Mab fel cynllun bywyd i ddynolryw. Gwel ystyr yn seren y Dwyrain—ei seren Ef, am byth yn codi yn *uwch*. Ca ystyr i einioes Crist o Gana—troi y dwfr yn win—dwyn llonder i'r pryderus :—

'Gwyrth gyntaf yr Iesu myneg-wyrth yw
O fywyd ardderchog a melus Mab Duw."

Gweithia allan y syniad o droi y dwfr yn win yn hynod o dda—yn naturiol ac eglur.

Wedi ymdrin am aberth Crist, ac aberth ereill, gofyna,

'Beth yw'r dirgelwch sy'n iawn y Groes ?'

Eto,

'Beth yw yr iawn ond gorhaeddiant Crist ?'

Nid cywir hyn, oblegid golyga fod peth yn ddyledus dros Grist ei Hun, a'r gweddill dros ben i'w roi dros ereill. Dywed hefyd mai

diddymu hunan, a phechod yn marw tu hwnt i'r llen yw yr Iawn :—

'Beth yw yr Iawn ond Hunan mewn dyn

* * * * *

Yn cael ei ddiddymu ar farwol bren?—

Ond Pechod yn marw tu hwnt i'r llen?'

Y canlyniad yw fod eisieu bywyd o aberth mewn dyn; a dywed fod 'y bywyd newydd yn esgyn o hyd.' A olygir yma nad oedd Crist ond dyn, a'i aberth yn ddim amgen nag esiampl o'r aberth a ofynir gan bob dyn yn nadblygiad ei fywyd i fywyd uwch?

Wedi hyn sonia am nefoedd ac uffern. Dywed :—

'Pa le mae y nefoedd? Mae yn ein byd,
Pan sudder i ystyr yr Aberth i gyd,
Nid lle yw y nefoedd, ond Bywyd byw,
Bywyd yn esgyn i syniad Duw
Am dano. Mae'r gwr sydd heb le i'w ben,
Wrth fyw i'w gyd-ddyn, tu hwnt i'r llen!

Nid yw uffern ond purdan o dan enw arall :—

'Beth yw y nefoedd? A fydd i'r rhai pur
Esgynant i'w mynwes, drwy oes o gur,
Y rhai mae eu bywyd yn aberth byw,
Fyw bywyd o aberth trg'wyddol dros Dduw?
A gant debygoli i'r Iesu yn fwy
Drwy adael y nefoedd am wlad o glwy'
A phoen annesgrifiol?'

* * * * *

'Beth a fydd bywyd Duw ei Hun—
Y bywyd sydd byth yn para yr un—
Onid Bywyd o Aberth am byth, fel y bu?
Beth os mai myned i uffern ddu
Mae'r Crist ddaeth i lawr i'n byd cyn hyn!
Ai dyma ddadblygiad Ei aberth syn?

Y mae'r dysgrifiad o'r hwn a wnaeth gais am gael myned o'r nef i uffern at ei frawd i'w ddwyn oddi yno—a'r hwn a ddywedai mai uffern iddo ef oedd y nefoedd tra'i frawd yn uffern obry—yn dra eithafol, rhyfygus, ac anysgrhythrol :—

“ Fy mrawd, O fy mrawd yn y fflam,” meddai ef,
 “ Uffern i mi
 Oedd byw yn ngogoniant trag'wyddol y nef
 Yn dy glyw di,
 Felly fe ddaethum i waered i'th nol,” &c.

Dywedir am y brawd, wedi iddo dderbyn y genadwri :—

‘ Ar ei frwmstan sedd, yn nghanol dieifl,
 Cwyd allor i Dduw.’

Ac y mae'n gwrthod ymadael o fro'r trueni am fod uffern ei hun mwyach yn nefoedd iddo !

Cyfansoddiad ‘ rhyfedd ac ofnadwy ’ yw hwn, er yn alluog. Anhawdd iawn cyssoni yr athroniaeth a gynnwysir ynddo a duwinyddiaeth y Gair Sanctaidd. Nid oes lle i amheu *gallu* yr ymgeisydd; ond y mae yn llawer mwy o athronydd nag o fardd. Deuwn ar draws rhai gwallau yn y cyfansoddiad, megis :—

‘ Hunanymddibynol ;’
 ‘ Tu hwnt i'r llen ddaw yr holl yn glir ?
 ‘ Wedi'r ânt heibio *fel megis* un dydd.’

Ceir yma rai darnau naturiol ac eglur iawn, y llinellau ar ‘ droi y dwfr yn win,’ a'r deryn sydd yn dechreu gyda'r llinell :—


‘ Mor brin yw adnoddau dedwyddwch y byd.’

Dyma ddwy linell dda :—

‘ Gwelais lindysyn, tu hwnt i'r llen,
 A'i fywyd yn weddi am aden wen.’



“TU HWNT I'R LLEN.”



“The beginning of all wisdom is to look fixedly at clothes until they become transparent.”—SARTOR RESARTUS.

RHAN I.—BREUDDWYD.

I.

EISTEDD yr wyf, yn y gwanwyn gwyrdd,
Yng nghanol perarogl blodau fyrdd ;
Gwenaf yn awr ar y lili lon,
A hithau a wena yn bur ei bron.
Ond cofiaf hen gewri f' athronol lèn,
A thybiaf mai myfi sydd yn creu ei gwen ;
Yn sydyn gofynaf iddi hi :
“Ai nid myfi sy'n dy wneuthur di ?”

A'r lili edrycha i'm hwyneb yn syn,
A dwyfol fudandod ei hysbryd gwyn
Leinw fy mron â chyfaredd fyw,
Dry yn hyawdledd distawrwydd Duw :
“O ddyn, sydd yn teimlo'm dwyfoldeb I,
Ai nid myfi sy'n dy wneuthur di ?”

O ddyfnder fy ngwrid ei hateb a wna :
“Beth yw y gwanwyn, a pheth yw yr haf ?
Beth yw y blodau, a pheth yw y coed ?
Beth yw yr adar pereiddiaf erioed ?
Onid a wna fy meddwl I hwy ?
At ddyn, fel at Adda, daw cread byth mwy !

Efe ydyw enaid cre'digaeth Duw,
 Ac yn ei feddwl mae pobpeth yn byw ;
 Efe ydyw hanfod pob lliw a llun ;
 A fyddai cre'digaeth heb feddwl dyn ?
 Frenhines y blodau, tyr'd, ateb i mi,
 "Ai nid myfi sy'n dy wneuthur di ?"

Eto brenhines yw'r lili wén,
 Ac nid yw'm honiadau yn plygu ei phen,
 Ateba yn groew hyderus drachefn :
 "Dywedi mai'th feddwl yw awdwr trefn,
 Yw awdwr bywyd o filmil ryw
 'Trwy gread ardderchog-amrywiol Duw :
 Wel, dywed beth wnelai dy feddwl chwim
 Pe bae dy wrthrychfyd iti'm ddim ?
 Pe unwaith symudid i'r gwagle mud
 Y bydoedd aneirif, a bywyd pob byd ?
 Ai ni byddai dagrau fel moroedd yn cwrdd
 Wrth symud myfyrgell dynoliaeth i ffwrdd ?
 Ai nid yn fy nrych y gweli dy lun ?
 Ai nid ynof fi'r adnabyddi dy hun ?
 Pe na byddai gwrthrych tuallan i ti,
 Pa bryd, dywed imi, dywedit 'Myfi ?"

Eistedd yr wyf, yn y gwanwyn gwyrdd,
 Yng nghanol perarogl blodau fyrdd ;
 Yn sydyn, dall ydwyf yng ngoleu y nef,
 Dall ydwyf, fel Paul, i'w weled Ef—
 Fynudau sanctaidd yr enaid byw,
 Pan ddellir ei lygaid i weled Duw !

Mi welaf yn awr nad ydoedd fy ngwir
 Cyn clywed y lili, ond haner clir ;
 Clustfeiniwch, gan hyny, y blodau diri :
 "Myfi wnaeth y lili, a'r lili fyfi !"

Fy Hegel, canfyddaf dy drindod yn awr ;
 Syrth undod penaethol fy meddwl i’r llawr ;
 Mae llen ar fy enaid, a’r lili wèn,
 Mae dau o ysbrydoedd tu hwnt i’r llen—
 Dau ysbryd a garant eu gilydd o hyd,
 Dau ysbryd briodant yn llawen, ryw bryd,
 I eni Drychfeddwl, eu plentyn gwyn,
 Ddaw’n angel newydd i blant y glyn !
 Ha ! dacw anifail yn pori’n ddibaid
 Y meusydd toreithiog, yn torri ei raid
 Drwy bori y blodau sy’n hardd fel y nef :
 Mae gwelltglas a blodau’r un fath iddo ef.
 Prydferthwch ! Ni welodd anifail mo’i bryd ;
 Gwasanaeth a phorthiant golofnant ei fyd !
 Meddwl ! Ha ! Meddwl yw’r gallu sydd
 Yn creu yr holl fydoedd, yn taenu dydd
 Fel cawod arianlliw trwy gread Duw,
 Yn gwneuthnr pob bywyd yn fyw, yn fyw !
 A deued i’r maes ddim ond Peter Bell,
 Mae hwnnw yn canfod, er nad yw yn ffêl,
 Yn canfod briallen, yn canfod ei lliw,
 Yn canfod ei bod hi yn tyfu a byw.
 Mae hwnnw yn rhoi i’r friallen ei byd,
 Er nad yw yn canfod ei led a’i hyd !

Ond pan ddaw y meddwl ysbrydol, clir,
 Uwch ben y blodaur pydferthion, pur,
 Agorant, a daw pob blodeuyn byw
 Yn llygad ynghorph Prydferthwch Duw !
 Beth ydyw Solomon yn ei wyn
 Yn ymyl y lili d’wysogaidd, bryd hyn ?
 Gwynder y pannwr mor halog yw
 Yn ymyl y gwyn sydd ym mantell Duw !
 I’r meddwl sydd bur, mae y blodau o hyd
 Yn fyrdd o ffenestri i’r anwel fyd !

A thremia i'r sancteiddiolaf gwyn
 Tu hwnt i lèn blodeuyn y glyn.
 Anfeidrol feddwl a gwyd ei ben
 O bob blodeuyn, tu hwnt i'r llen !
 Ha ! Meddwl sy'n rhoddi i'r lili ei llef !
 Ond beth wnaiff y lili yn ol iddo ef ?

Syllu yr wyf ar y lili wèn
 Sy'n wynnach na'r cwmwl goleuaf uwchben ;
 Teimlaf fy nghalon yn ysgafnhau,
 Ac edyn fy ysbryd yn ymgryfhau ;
 O, mae prydferthwch liliod diri
 Yn dangos prydferthwch fy enaid I.
 Mae yn y blodeuyn ryw ysbryd mawr,
 A'i gysgod a gerdda fy ysbryd yn awr,
 A dodda yn ddarlun newydd a byw
 Ar lenni fy enaid o harddwch Duw !
 Beth fyddai'm meddwl heb gread hardd ?
 Ai nid yw'n dadblygu rhwng blodau'r ardd ?
 Ai nid prydferthwch y blodau diri
 Ddadblyga brydferthwch fy enaid I ?
 Beth os mai'm meddwl sy'n codi y llen
 Guddia ddwyfoldeb y lili wèn—
 Beth os mai'm meddwl a wnel iddi fod
 Yn harddach nâ'r tiwlip yn wynnach nâ'r ôd—
 Ai nid prydferthwch y lili a gwyd
 Y llenni anhreiddiol o'm henaid llwyd ?
 Ai nid wedi symud y ddeulen i ffwrdd
 Mae'r ddau alltud ysbryd o'r diwedd yn cwrdd ?—
 Yn cwrdd, yn ymgolli i'w gilydd yn llon,
 Fel dau ddiferyn yn rhedeg i dòn
 O fôr dilan ? Ai nid hefyd yn awr
 Mae'm hysbryd yn nofio y dyfnder mawr—
 Yn nofio y dyfnder i mewn at Dduw
 I weled i hanfod Bywyd a Byw ?

II.

“Bydded Goleuni!” a seinia’n glir
 Uwchben fy myd, wedi blwyddi hir
 O aflunieiddiwch, a gwagder hyll,
 Ac O, mae Paradwys yn tyfu o’r gwyll!
 Mae’r cread yn troi yn ysbryd yn awr,
 A’r wisg o Fater a deflir i lawr;
 A minnau ganfyddaf fantell wèn,
 Ysbrydol i’r Duwdod tu hwnt i’r llen.
 O’r diwedd, mi welaf nad yw y byd
 Ond llyfr darluniau a daflwyd i gryd
 Y baban agora laslygad clir,
 Yswilia yn wyneb yr ysbryd cyn hir!
 Ddelfrydydd, a gofi y fynud fyw
 Ailanwyd dy ysbryd i weled o Dduw?
 A gofi’r perlewyg a’th wnaeth yn fardd,
 Pan welaist y cread yn ysbryd hardd
 A noeth, ryw brydnawn o haf yn y coed?
 Pan welaist dy hun, y tro cyntaf erioed?
 Pan welaist dy Dduw yn dyfod yn ddyn,
 A dyn yn Dduw yn dy fywyd dy hun?
 “Olldduwiaeth! Olldduwiaeth!” sibrydir i mi,
 “Gwylia a gwêl pa le cerddi di!”
 Nid felly; rhoer imi wirionedd mewn gwyn,
 A phe bae’n Olldduwiaeth, gwirionedd er hyn
 A garaf yn fwy nag un gredo ddifudd
 Na fyddo yn tywys fy ysbryd i’r dydd!

Mi wn nad “ysbryd y cread” yw Duw,
 Ond gwn Ei fod Ef ymhob gronyn yn byw!
 Gwn nad trwy’r creu y daw ato’i Hun,
 A gwn mai fel hyn y daw at ddyn
 Ei briodoleddau anfeidrol Ef!
 Gwn mai cyfieithiad o iaith y nef
 Yw pob blodeuyn ar fryn a phant;
 A gwn fod dyfnder diwaelod i’r nant

"TU HWNT I'R LLEN."

Yn y nos, pan gwyna dan ganu trwy'r cwm ;
 Mi wn fod cyfoeth mewn mynydd llwm,
 A myrdd o dafodau ar hyd y byd
 Yn ddwyfol a dynol i'm henaid o hyd !
 Ym mhopeth, ym mhobman, mae'r cydgan yr un :
 " Mae Duw trwy y cread yn dyfod yn ddyn !"
 Ym mhopeth, ym mhobman, yr allgan un yw :
 " Mae dyn trwy y cread yn dyfod yn Dduw !"

III.

Aed fy ysbryd yn awr hyd y llwybrau gwyn
 A gerddodd ysgafndroed Duw, cyn hyn ;
 Mae popeth yn wir gyssegredig i mi,
 Cyfododd y blodau lle sangodd fy Rhi—
 Y blodau ogwyddant dan bwysi mêl ;
 Gwynfyd a'u casgl, gwynfyd a'u gwêl.
 Tu hwnt i'r llen, tu hwnt i'r llen
 Dadguddier y mynych Fywiol Bren.

Damhegion, damhegion ! Maent o bob tu
 I'm henaid chwilfrydig, p'le bynnag y try ;
 Mae Duw yn llefaru trwy'r oesau wrth ddyn
 Mewn myrdd o ddamhegion, cyn dyfod Ei Hun
 Yn ddameg anfeidrol i'r byd—cyn cawd
 Holl wir y Nefoedd o'r diwedd mewn cnawd !
 Gwirionedd y Nef yn frawddegau clir
 A gododd Efe o holl faesydd y tir ;
 Danghosodd y gwir ddaeth i lawr o'r nen
 Er's oesoedd, pan dreiddiodd tu hwnt i'r llen !
 A minnau a dreiddiaf ar Ei ol Ef
 I ystyr gyfriniol damhegion y nef,
 Nes gwelaf y ddameg yn peidio a bod,
 Ac ysbryd y gwir i fy ngwydd yn dod
 Yn ddwyfol-noeth, yn ieuanc a hen,
 Nes teimlaf fy mewnol fod ar ei wên,

Nes teimlaf fy ysbryd am ddod yn rhydd,
 Ac yn teneuo y babell o bridd
 I beidio a bod yn ddameg fyw,
 I fod yn Wirionedd Noeth fel Duw !

Pa le y mae Horeb ? Ai dim ond un berth
 A welodd Jehofa erioed yn werth
 Dyfod i'w brig yn fflamiau byw ?
 Mae pob un o'r perthi yn llosgi gan Dduw !
 Mae perth o eithin mewn anial le,
 Lle bum I ganwaith, yn hogyn ynhre,
 Mewn sanctaidd fyfyrdod, uwch murmur tón
 Yr afon sy'n canu trwy'm hoes yn fy mron !
 A mynych bu'r berth, yn ei blodau byw,
 Yn llosgi gan ryfedd ogoniant Duw !
 Mynych y clywais y fewnlef gre
 Yn tonni trwy'm hysbryd : " Sanctaidd yw'r lle !"
 Tynnwn esgidiau bydolrwydd i ffrwdd,
 A theimlwn fy mod â Jehofa yn cwrdd !
 Ai yn y Nefoedd mae Duw uwchben ?
 Mae yn yr holl berthi, tu hwnt i'r llen !

Ysbrydion ! Ysbrydion llon a phrudd !
 Maent yma yn byw er y boreu ddydd,
 Unasant âg anthem sêr y wawr,
 A'u nodau nefolaidd ar lawer awr
 Sy'n cadw'r bydbruddfan, sy'n cadw fy ne
 Rhag myned yn fawlgerdd i Niobe.
 Mi glywaf eu siffrwd, mi welaf eu gwedd,
 O amgylch y cryd, ac o amgylch y bedd ;
 A mynych y rhodiaf yn eu plith
 I ganol ysbrydoedd sy'n byw am byth.
 Ai Pedr yn unig a gaed o'i gell
 A'i gadwyn i feddu ar ryddid gwell ?
 Ai ni ddaeth, yn fynych, yr angel pur
 I'm gwyddfod innau, ar lawr dan gur

"TU HWNT I'R LLEN."

Cadwynau gorthrechol materol fyd,
 I'm swyno, er muriau a milwyr i gyd,
 I'w ddilyn i ganol ysbrydoedd gwyn
 Ganent mewn rhyddid ar ben y bryn ?

Mae gweld y wenynen ar felus hynt
 I mi yn hyfrydwch yn awr fel cynt :
 Mae imi fel angel i'm dwyn yn ol
 I'r bywyd gwanwynol ddiangodd o'm col.
 Dilynaf yr eilir coch a gwyn
 Eto trwy'r maesydd i gopa'r bryn ;
 Ai nid megys cennad diofid o'r nef ?
 I'm dysgu i beidio pruddhau y daeth ef ?
 Ac ysbryd i mi yw'r ddallhuan wén—
 Rhyw ysbrydoedd Dirgelwch, gan daeno llen
 O gaddug tros wyneb yr haul a'r dydd ;
 Ac yn ei swn myfyrdodau prudd
 Difrifol am fywyd lanwant fy mhen—
 Try yn nodyn o'm bywyd, tu hwnt i'r llen !
 A'r gog yn angel hyfrydwch a gaf,
 I'm cymell i froydd diderfyn haf ;
 I minnau nid ydyw " aderyn," ond " llef"
 Rhyw ysbryd gorlawen o ganol y nef !
 Ysbrydion, ysbrydion ! Mor llon, ac mor brudd !
 Maent yn ein cylchynnu, bob nos a phob dydd ;
 Gwêl Milton " filiynau " yn nes nâ'r nen
 Yng ngoleu'r ddwy seren sydd yn ei ben ;
 Ond cenfydd fwy eto pan gwyna yn brudd
 Adfydus fachludiad ei ddwy Seren Ddydd.
 Fe welir angylion yn Eden dlos,
 Ond mwy Yngholl Gwynfa, yn nyfnder nos !

IV.

Cipolwg a gefais ar swynol wir
 Y cread, yn wyneb y lili glir,
 Mae'r gwir yn agosach ar ambell awr—
 Pa bryd y gwnaf fywyd o'm horiau mawr ?

Mi welais y gwir yn noeth ar y bryn,
 Cyn colli fy hunan rhwng niwl y glyn.
 O, mae'r materol yn fywiol ffaith
 Fel nas gall fy ysbryd, 'r ol blinfawr daith,
 Ei groesi ar brydiau i'r eang fyd
 Lle gwelir y cyfan o Dduw o hyd !
 Bydysawd dragwyddol sydd ger fy mron,
 Ac ynni tragwyddol yw enaid hon ;
 Gwelaf unbennaeth pob bywyd mewn dyn;
 A chodaf allorau, addolaf fy hun.

Ond wedi alltudio fy ysbryd fel hyn
 I ganol anialwch y coed, neu y bryn,
 Ryw ddiwrnod, dadblyga ei aden bur,
 A chura hi ar y materol fur ;
 A'r mur a ddirgryнна, a syrthia i'r llawr,
 A'r ysbryd breswylia'r eangder mawr !
 Tu hwnt i'r llen, tu hwnt i'r llen,
 Lleda fy ysbryd ei aden wèn,
 A chyfyd i asur glasoleu ei Dduw,
 A chenfydd gyfrinion Bod a Byw !
 Gwelaf, yn awr, beth yw ystyr y gwir
 A faterolais, er's blwyddi hir :
 Beth ydyw Mater ei hun erbyn hyn,
 Ond gwisg weledig yr ysbryd gwyn.
 Nid ydyw yn *bod*. Onid cysgod yw ?—
 Cysgod yr ysbryd sydd ynddo yn byw ?
 Edrychais ar babell oedd goch a gwyn—
 Ty unnos i ysbryd oedd hi yn y glyn.
 Y pethau a welir amserol y'nt hwy ;
 Yr anweledig ddeil beunydd yn fwy.
 Amserol yw Mater ; yr ysbryd sydd
 Byth yn preswyllo'r tragwyddol ddydd.
 Tu hwnt i'r llen, tu hwnt i'r llen,
 Lleda fy ysbryd ei aden wèn,
 A gwel y bydysawd fel mantell hardd
 Am feddwl ysbrydol y Dwyfol Fardd !

Eheda ar aden fythieuanc ym mysg
 Brodyr-ysbrydoedd, a gwel y wisg
 Faterol yn cael ei phlygu gan Dduw,
 Trwy'r cesau, i ddangos yr ysbryd byw,
 Fydd byth yn ieuanc a noeth fel y Nef,
 Ac fel y bu unwaith cyn cychwyn o dref!

Fychaned yw hwnw na wêl y byd
 Ond megys pelennig farw, o hyd
 Yn troi gylch yr haul, neu yn ceisio ffoi
 Oddiwrth ei ganolbwynt, neu ynte'n troi
 Fel meddwyn awyrol arno ei hun—
 Tosturiaf, tosturiaf wrth beiriant o ddyn.
 Ha, gwelais y byd, o unigedd y bryn,
 Fel Dwyfol golomen y diluw, cyn hyn,
 Yn lledu dwy aden flinedig gwyw,
 Yn hedeg dros fôr yr eangder at Dduw!
 Yn ol at Dduw yr ehedai ef,
 Fel ysbryd afradlon yn troi tua thref!

O ganol awyrgylch mor hyfryd, mor wyn,
 Holaf fy hunan yn llawen a syn :
 Pa le y mae cyfnewidioldeb yn awr ?
 Ymsuddodd i'r Digyfnewid mawr !
 Rhyw ysgol Jacob yw'r byd i gyd,
 I'm codi i ganol ysbrydol fyd.
 Mae'r ysbryd yn tyfu trwy wisgoedd diri
 Wrth geisio dadguddio ei hunan i mi.
 Myfi sydd mor fychan, a'r ysbryd mor fawr,
 Fel nad yw yr Anghyfnewidiol mawr
 I mi yn weledig, trwy flwyddi hir,
 A'r Cyfnewidiol yw'm hunig wir.
 Ond tu hwnt i'r llen, nid oes i mi mwy
 Gyfnewidioldeb ; diengais trwy
 Dwyll ymddanghosiad ; a'r ysbryd byw
 Sydd imi yn un Tragwyddol yn Nuw !

v.

Gamgymeriadau ! maent gyda mi,
 P'le bynag y trôf, yn dorf ddiri.
 I'm hysbryd yn fore truenus fu'r ffawd ;
 Edrycha'n feunyddiol trwy wydrau o gnawd.
 Mae lliw y materol i'r gwydrau hyn,
 Fel nad wyf yn canfod y goleu gwyn—
 Y goleu disgleirwyn sy'n dod o Dduw—
 Ac yna fy hudniwlen fynychaf 'r wy'n byw.

Ond weithiau, pan dreiddiaf tu hwnt i'r llen,
 Pan welaf o'r gliriach ysbrydol nen,
 Yr iaith ystrydebol, faterol nid yw ;
 Ynganaf iaith ysbryd fel heniaith fyw,
 A gwelaf wirionedd yng ngoleu y nef,
 A dawnsia fy ngharchar, pan drôf i dref.
 Pa beth yw Amser ? Mae yma o hyd
 Yn glynnu wrth enaid nad yw o'i fyd.
 Beth ydyw mewn ysbrydolfyd gwyn ?
 Nid yw yn bodoli i mi, bryd hyn.
 I'm carchar, myfi sydd yn gwneyd iddo ddod ;
 Tywyllwch fy llygaid a bâr iddo fod ;
 Ai nid wyf yn fwy nô blwyddi diri ?
 Ai nid yw'r Tragwyddol erioed ynof fi ?
 A phan ddaw Amser i'r gwawl ar ei hynt,
 A'n ddim, megys bwgan o'r dyddiau gynt !

Eistedd yr wyf, yn y gwanwyn gwyrdd,
 Yng nghanol perarogl blodau fyrdd :
 Cauaf fy llygaid, a daw ger bron
 Gewri yr oesoedd, yn brudd a llon.
 Cân Homer, ddallwelwr, ei gerddi yn awr,
 Wedi im lithro yn esmwyth i'w wawr.
 Weithian, mae nos y cynoesoedd ar ffo,
 Wyf lawn o arwriaeth gwroniaid Caer Dro.

"TU HWNT I'R LLEN."

Llamaf i'r gad â fy nghleddyf dur,
 Neu syllaf ar Helen ar ben y mur,
 Fel haul yn tywynu ar arfau ei gwlad,
 Neu ddarlun anfarwol o farwol dristhad !
 Wyf 'nawr yn nghyfyngle Thermopylae,
 Yn ennill fy mri, wrth atal y gwae ;
 Ac weithian, yn ysbryd anfarwol, 'r wy'n dod,
 Simonides, atat am goron clod.
 Rhyfeddaf wroldeb Caradog, ar hyn,
 Ac arall wroldeb John Penri, yn syn.
 Mae'r oll mewn amrantiad yn dod ger fy mron,
 A llygaid fy ysbryd chwareuant yn llon.
 Amrantiad ? Beth ydyw amrantiad ni'm dawr—
 Mae'r oll fel un darlun i'm hysbryd yn awr !
 Pa le y mae Amser ? Ni threiddia i nen
 Ysbrydoedd anfarwol, tu hwnt i'r llen !

Mil o flynyddoedd i'm Harglwydd sydd,
 Wedi'r ânt heibio, megys un dydd ;
 Ac un dydd iddo, mewn gloewach nen,
 Fel mil o flynyddoedd tu hwnt i'r llen.
 Nid ydyw Amser yn bod iddo Ef—
 Un dydd tragwyddol yw dydd y Nef !
 Ond ai nid yw mil o flynyddoedd i mi
 Fel undydd, pan gyfyd fy ysbryd i'w fri ?
 Pan gyfyd o'i garchar i brofi'r wledd
 Dragwyddol ga'n fuan yn mröydd yr hedd ?
 Ai ni ddaw i'm henaid anhraethol ffawd,
 Pan daflaf i'r bedd fy maich o gnawd ?
 Ai ni sylweddolaf un Heddyw, bryd hyn—
 Heddyw Tragwyddol yr ysbryd gwyn ?
 Os felly, mi welaf nad breuddwyd yw
 Dweyd nad yw Amser i'w weled o Dduw.
 Ac onid yw'm henaid *yr un* yn awr,
 Pan gyfyd o'i nos i groesaw gwawr,

Ag a fydd pan ymsudda i'r diluw gwyn ?
 Sy'n llanw i mewn tros geulannau y glyn ?
 Yn awr, ambell dro, ni ddaw amser i nen,
 Ysbrydoedd anfarwol, tu hwnt i'r llen !

Gamgymeriadau ! Maent gyda mi,
 P'le bynnag y trôf, yn dorf ddiri.
 Beth ydyw Lle ? Mae fy meddwl o hyd
 Am roddi ei le i bob peth ymhob byd.
 Ac yn ei le'r adnabyddâ'n ddifeth
 Ystyr gyfriniol-ddamhegol pob peth.

Efelly gweithreda, ond gwelaf mor ffol,
 Pan gaffo fy ysbryd y goleu yn ol,
 A ! Meddwl sy'n methu a gweled yn glir,
 Wrth syllu trwy d'wyllwch ei garchar yn hir,
 Eto, pan godaf ar aden wên,
 Ar brydiau, i gliriach, eangach nen,
 O ganol goleuni ysbrydol Ne,
 Canfyddaf mai syniad materol yw Lle ;
 Syniad i'r plentyn sy'n dechreu byw,
 Heb weld ar amrantiad eangder Duw ;
 Syniad i ysbryd sy'n para'n wan,
 Heb ddechreu ar deimlo ei hun ymhob man !
 Yng nghanol y nos, pan yw'r byd mewn hedd,
 Mae'm hysbryd anfarwol yn codi o'i fedd.
 Mae ysbryd y nos, yn sobr ei bryd—
 Hen ysbryd yr Anherfynol—o hyd
 Yn dyfod yn noeth i'm hystafell fyw,
 Ac yn ei wyneb, mae wyneb Duw !
 Mae'r cread yn sanctaidd fud yn awr !
 Daliaf yr angel hyd doriad y wawr !

Gollyngaf yn fynych ochenaid ddofn,
 Fy nega berlewyg, addoliad, ac ofn.
 Codaf len y ffenestri, mewn cyffro byw,
 Ac wele y cysegr ! A lampau Duw

Fil myrdd yn dangos dieithriol wawr
Seceina yr Anherfynol mawr !

Dilynaf hen ysbryd yr wybren fry
I ganol ei nosbalasau lu ;
Dwg fi i ganol gwindy mwynhad,
A'm hysbryd a deimla ryfeddol gryfhad.
Dilynaf y sêr ar ddiderfyn daith :
Dilynaf Arcturus ar gylchdro maith
O amgylch y seren a ddeil o hyd
I wenu'n ddigyffro yn nos y byd.
Llamaf yn wyllt at Orion wèn,
Ac yn ol at Wener, sy'n cuddio'i phen ;
Yn ol, ac ymlaen, ar hyd llwybrau'r Ne,
Llamaf heb wybod am Amser na Lle.
I sêr sefydlog anferthol fawr
Ehedaf ar edyn ysbrydol yn awr.
O ryfedd eangder ! Mae'm henaid a'i droed
Ar fyd na welodd seronydd erioed.
A hwnt yn y pellder, mwy seren a daen—
O, mae yr Anherfynol o'm blaen !
Ond, iaith, paham na'm hegluri yn well ?
I'r ysbryd 'd oes unman yn agos na phell !
Suddaf o'r diwedd i ganol y môr
Lle sudda aneirif sêr yr Ior !

Gwawria o'r diwedd i'm meddwl yn glir,
Yng nghanol tawelwch y nos, y gwir
Gyfleu'r eangder ofnadwy fawr,
Wrth syllu ar ysbryd y nefoedd yn awr.
Yn noeth ger fy mron, yn f' ystafell fyw,
Yn wyneb yr ysbryd mae wyneb Duw !
I Dduw nid yw Lle ! Pe cymerwn yn awr,
Fel arall awenydd, adenydd y wawr,
Pe trigwn ddyfnderoedd eithafoedd y môr,
Yng nghanol fy mhabell preswyliai yr Ior,

A phe cyweiriwn fy ngwely o dân
 Yng ngwaelod y pwll, y llygaid glân
 A threiddgar-dyner a wylent fy nghur,
 Yn llawn o Gyfiawnder a Chariad pur !

Ond os yw fy meddwl yn camu ffyrdd
 Heuliau anghysbell, a’u bydoedd fyrdd,
 Os yw fy meddwl yn dilyn Ior
 I waelod y llynclyn, a gwaelod y môr,
 Heb wybod am rwystrau mwy nag efe,
 Ai rhywbeth i *mi* ei deimlo yw Lle ?
 Ai nid wyf fi, pan dorraf trwy
 Y gnawdlen, yn arwain fy meddwl hyd ffyrdd
 Sy’n dal yn fy nghalon yn fythol wyrdd ?
 Tu hwnt i’r llen, nid oes Amser na Lle ;
 Paid cyfnewidioldeb ger ei fron E !
 Lleda fy ysbryd ei aden wen,
 Preswylia’r Tragwyddol, tu hwnt i’r llen !

VI.

Ond ai breuddwydion fy mywyd yw’r rhain ?
 Ai dal i farddoni uwch cread cain
 Yr ydwyf, heb feddwl am daflu trem
 Ar holl fateroliaeth fy nghanrif lem ?
 Ai nid y lliw sydd ar wydrau bardd
 Ddengys bob bywyd yn ddwyfol o hardd ?
 Pa beth ydyw harddwch a pheth ydyw lliw ?
 Pa le yn y blodau mae ysbryd byw ?

O ysbryd Amheuaeth, os gweli di
 Liw ar fy llygaid, uwch blodau diri,
 Pa fodd y condemni, heb galon dy hun ?
 Ai nid y galon yw hanfod pob llun ?
 Nis gall dy lygad byth weled lliw
 Na harddwch blodeuyn, heb galon fyw

A chynnes i deimlo'i ddwyfoldeb ef ?
 Pa ryfedd os nad wyt yn clywed llef
 Ddistaw-wefreiddiol yr ysbryd gwyn
 Blyga fy ngliniau rhwng coed y glyn,
 Os nad wyt yn meddu ysbrydol glyw
 I wrando ar delyn Orpheus Duw ?

Ymsoniaf yn awr uwch y cread hardd,
 Heb yfed yn helaeth o gochwin y bardd ;
 Ac wedi i'm gasglu o bob tu
 I undod diwrthdro feddyliau lu,
 Beth ydyw diwedd myfyrdod hir ?
 Tu hwnt i'r llen, ddaw yr oll yn glir ?

Tu hwnt i Amser a Lle yn awr,
 Suddaf i'r Tragwyddoldeb mawr.
 Tu hwnt i'r cread, a'i filmil sêr,
 Syllaf yn wylaidd ar noethder Ner—
 Noethder yr Ysbryd Tragwyddol Hardd,
 A noethder meddyliau y Dwyfol Fardd !
 Yng nghanol pelydrau Ei wynder byw,
 Gwelaf beth ydyw y cread o Dduw :
 Gwelaf yr Ysbryd Anfeidrol Ddoeth
 Yn gwrido wrth deimlo Ei Hun yn noeth ;
 Yn gwaeddi uwchben Ei feddyliau diri :
 " Corff barotoaf o'r diwedd i Mi !
 Pa le mae y drych i mi weled fy Hun ?
 Hiraethaf, hiraethaf am weled fy llun !
 Wyf Dduw ond mewn enw yn unig, mae nerth
 Braich anfeidroldeb yn para'n ddiwerth.
 Ai ni chaf weled fy ngallu yn nrych
 Cread amrywiol-gyfoethog a gwych ?
 A eill y Duw sydd yn Gariad fy
 Iddo Ei Hunan—a bod yn Dduw ?"

“Bydded esboniwyd yng ngoleu fy Rhi ;
 “Bydded goleuni ” ddaw'n oleu i mi,
 Beth yw y cread ond corff i Dduw—
 Corff mae Ei feddwl, fel gwaedlif byw,
 Tragwyddol yn rhedeg trwyddo o hyd ?
 Onid yw hawddgar wyneb-pryd
 Y cread yn fyw gan hyawdledd bardd,
 Ddadgana brydferthwch Ei Ysbryd Hardd ?
 Onid yw Duw yn gweled Ei lun
 Yn Ei fyrddiwn creadigaethau bob un ?
 Onid yw Cariad-Feddwl y Nef
 Yn cael ei arddangos yn fyw iddo Ef
 Yn serch-ddarluniau yr adar cun,
 Yr anifeiliaid diri, a dyn ?

Un bore o wanwyn, medd Duw i mi :
 “ Tyrd allan i'r maesydd yn llaw dy Ri.”
 A minau fudwylaidd ganlynais fy Naf,
 Tra canai im ddarnau o garol Ei haf.
 Ni ddaethom wrth ymdaith at flodyn byw,
 A pherlewygais yn ymyl fy Nuw.
 O dan ireiddiol wlith y wawr,
 Gwelais ddistaw-symudiad yr Ysbryd Mawr
 Dreiddiodd fel bywiol wefr trwy'm bron !
 Tra canai'm Harweinydd i mi'n llon :
 “ A welaist ti yn y blodeuyn Fyfi ? ”
 Ha ! gwelais I ynddo Fyfi a thydi !
 Mae Duw yn gweled Ei ddwyfol daith,
 Mae Duw yn darllen Ei hanes maith
 Ymhob blodeuyn, ac ymhêr lef
 Ehedydd, clyw nodau uchaf y Nef !

Beth ydyw cread-ymdaith Duw ?
 Pa fodd y mae Ef yn ei gorph yn byw—
 Ei gorph *amserol* ? * Yw'r Ysbryd Mawr
 Yn ymwybodol mewn cread yn awr ?

* Mae yr ymadrodd yn eglur i efrydwyr o Hegel.

Wedi gadael tragwyddol ddydd y Nef,
 Beth ddaw o'i "afradlon" fywyd Ef?
 A ddaw Ef yn ol tua'r Nef drachefn?
 A fedraf olrheinio'r ddwyfol drefn?


Dilynaf yr Ysbryd ar hyd Ei daith
 O'r diddim, i gyrion y cread maith;
 Disgynna, a chyfyd y gerddi pêr,
 A'r blodau sydd megys daearol sêr.
 Gorphwysa, a chyfyd y coed a'r dail,
 A'i ganiad a ddeffry Eden ddaiail.
 Ond os yw yr Ysbryd mewn coed yn byw,
 Dwed y distaw-symudiad: "Cysgu mae Duw!"
 Rhyw ymdrech am ymwybodolrwydd o hyd
 Yw hyawdl fudandod y gwyrddlas fyd.
 Ac mae y llais distaw-wefreiddiol fel tae
 Yn sibrawd: "Nid marw, ond cysgu y mae!"
 Mi welaf yr Ysbryd yn deffro o'i hun,
 Yn codi o'i drigle i brofi gwin
 Melus freuddwydion am wynfyd glân—
 Breuddwydion a ddeuant o'r wig yn gân!
 Beth yw carolau y goedwig fyw
 Ond hyglyw freuddwydion Ysbryd Duw?

Ond ai breuddwydio'n dragwyddol wna Ef?
 Ai ni ddeffrôa i fywyd Ei Nef?
 'Ddaw dyfnder o ymwybodolrwydd byw
 O'r cread i alw ar ddyfnder mewn Duw
 Sydd fythymwybodol, ond eto sydd
 Am gael Ei Hun eilwaith drwy'r cread, ryw ddydd?

Daw, diau fe ddaw yr hafddydd cun
 Pan ymchwel yr Ysbryd ato'i Hun!
 O dan y coed yn Eden ardd,
 Cyfyd yr Ysbryd ieuanc hardd;

Yn ei lygaid disglaer-danbaid Ef
 Dawnsia hen oleu gwefreiddiol y Nef.
 Mae'r niwl fu ar lygad yr Ysbryd yn hir
 Yn awr wedi gwasgar, a threiddiol glir
 Yw'r llygad tan lygad y cyndad doeth,
 Ganfydda ei hunan yn noeth—yn noeth !

Mae Duw wedi deffro o'i gwsg mewn dyn !
 Mae'r Ysbryd yn awr yn ei weled Ei Hun !
 Mae ymwybodolrwydd yr enaid byw
 Fel ymwybodolrwydd eilwaith yn Nuw !



RHAN II.—Y DEFFROAD.

I.

“Yr wyf yn meddwl, felly'r wyf yn bod ?” *
 Beth ydyw ystyr hyn ? Beth ydwyf Fi ?
 Mae'r cread o fy amgylch yn barhaus ;
 Mae delw fy meddyliau arno ef,
 A delw ei ddelweddau arnaf fi ?
 Ond pa beth wyf ? Myfi, Myfi—beth *yw* ?

I dir y niwloedd oerion âf yn drist ;
 Credaf na chaf wirionedd byth yn bur.
 Mae'm gweision goreu oll yn dystion gau ;
 Fy nghlust a'm llygad, pa fodd credaf hwynt ?
 O na ! Y mae gwirionedd yn y byd
 Na thynnaf byth mo'i babell ef i'r llawr :
 Ai nid yw un a dau yn dâl yn dri ?
 “Pa fodd y gwn” drachefn sibrydaf fi,
 “Nad yw fy rheswm, yn fy nhywell gell,
 Yn dangos i mi baradwysi ffug ?”

* “Cogito, ergo, sum.”—DESCARTES.”

O fynwes anghrediniaeth daeth i'm rhan
 Grediniaeth fywiol gref : A allaf fi,
 Amheuaf bopeth, ameu bod *i'r bod*
Amheua ? Na, mae craig o dan fy nhraed
 O'r diwedd, yn y sugndiroedd erch.
 Ac eto daw'r gofyniad yn ei nerth :
 "Yr wyf yn bod—ond pa beth wyf—Myfi?"

Mae baban bychan newydd ddod i dy
 Fy mrawd, fel angel bach o arall fyd.
 Mae'n llefain, fel pe newydd ddod o'r llys
 I fwthyn llwm a thywyll yn y wlad.
 Pwy wyr ei hanes ?—O ba le y daeth?
 Mae myrdd o'i debyg yn y byd o'i flaen—
 Myrdd tebyg, ac anhebyg iddo ef.
 Ond os mai bychan yw, os bychan fydd,
 Mae iddo ran byth mwy yn hanes byd.
 Mae ef yn Rhywun. Rhaid ei nodi ef
 Fel Esau, fel na choller ef byth mwy
 Yn Jacob. Rhaid ei enwi ef yn awr.
 Enwi ? Pa beth yw enw ? Ond gwisg
 A lenwir byth gan Ysbryd yr Efe ?
 Nid ef yw'r enw ? Y mae ef yn fwy
 Nâ mil o enwau. Mae pob corff yn cael
 Ei ystyr gan yr Ysbryd ynddo sydd—
 Ystyr a bywyd gan yr Ysbryd mwy !
 Efe sy'n rhoddi ystyr ymhob sill
 O'r enwau roddir arno. Ymgais wân
 Y byd i ddangos ystyr yr Efe
 Sy'n cadw ei fyfiaeth, trwy ei oes,
 Yw'r enw. Ond beth tybed yw efe ?

Mwy hwn nâ chread crwn ; a phan y daw
 I lawn ymwybodolrwydd, sieryd byth
 Am bopeth yn wrthwyneb iddo ef :
 Dau beth fydd iddo—ef, a'r hyn nid yw !

Nid corff mohonno, ac nid enaid chwaith—
 Mae corff am dano, ond y cyntedd yw
 I'r deml. Y mae yr enaid mawr yn byw
 O fewn i'r cysegr, ac yn ddarlun pur
 Ohonno ef. Ond byth tu hwnt i'r llen,
 Mewn dwfn unigedd sanctaidd, gyda'r arch
 A'r drugareddfa, a'r cerubiaid dwys,
 Ofnadwy, cyfanedda yr Efe!

Efe—beth ydyw? mae y byd yn ddrych
 A ddeil i fyny o hyd i weld ei lun,
 I weled lluniau'i aden yn y gwawl
 Dafla yr haul i'r gwydr. Y mae pob peth
 Tuallan iddo'n dweyd am dano'i hun;
 Yn dweyd beth ydyw, ac yn dweyd nad yw
 O'r byd, er yn y byd. Ond pa beth yw?
 Dirgelwch oesol yw; ac nid yw dyn
 Byth, byth yn gallu edrych arno'i hun.
 Caiff Moses weled cefn gogoniant Duw,
 Ond ni chaiff gipdrem ar ei fewnol fod—
 Ar wyneb gogoneddus ei Efe!

Tu hwnt i'r llen preswylia byth, a rhaid
 I egwan fardd foddloni heb ei weld,
 Er iddo ei deimlo ynddo; ie, er fod
 Pob teimlad ynddo'n rhan o'r cudd Efe!
 Ac eto rhaid y gwn am dano ef
 Ychydig, er fy nellni. Onid yw
 Yr enw'n dweyd y gwn fod iddo ef
 Briodoliaethau, ac mai trwyddynt hwy
 Yr adnabyddaf ef, ple bynag bydd?
 Efe, Efe—beth yw ond meddwl pur
 Ym mywyd Duw yn gwisgo cnawd mewn dyn?
 Mae'r gwirioneddau sydd ym mywyd Duw
 Yn mynnu ymgorffori ymhob dyn byw
 Ar hyd yr oesau. Y mae Duw y Nef

Yn mynych ymgnewdoli, cyn i'r Crist
 Ymddangos fel Holl Wir y Nef mewn un
 Bywyd perswynol bur. Ac nid yw dydd
 Y pethau bychain yn cael bod dros gôf
 Gan Dduw wrth feddwl. Meddwl newydd Duw
 I'r byd yw Dyn yr Oes ; a meddwl mawr
 Pob oes a thragwyddoldeb ydyw'r Crist !
 Tu hwnt i'r llen, beth ydyw yr Efe ?
 Nis gallaf weled, gyda'm goleu du,
 Nad meddwl, oedd yn bod ym mywyd Duw,
 Yn ymgnewdoli ar y ddaear yw !

II.

Yn araf, eto : Fi yn feddwl pur
 A fu yn Nuw erioed, yn gwisgo cnawd,
 Yn mynd yn ffaith weledig iddo Ef
 Mewn bywyd byr, ond dwfn ! Fi'n feddwl ddaeth
 Yn air mewn dŷn, fel mae'r meddyliau sydd
 Ym mywyd dyn yn gwisgo cnawd o hyd
 Mewn llythyrennau, ac mewn geiriau fil !
 Myfi yn hyn ! Os felly, yr wyf yn frawd
 I'r angel gwyn a glân ! Ha ! freuddwyd pêr !
 Fy Hunan Goreu luniodd hwn, ar awr
 O wynfyd, tân y cwmwl ar y bryn,
 Megys heb gofio uffern ddu fy mod
 Am ennyd. Onid wyf yn fwy nâ hyn—
 Yn *llai* wrth fod yn fwy ? Pa le y mae
 Y pechod glywais ei ddilorni gynt ?
 Ai nid yw ef yn bod ? Ai drwg i mi,
 Ac nid o olwg Duw yw pechod byd ?
 Na, na, nid felly, medd fy nyfnaf fod.
 Gan hyny, a wyf fi yn fwy nâ rhan
 O Dduw ? Oes Hunan Arall ynwyf fi
 Anhebyg i fy Hunan dyfnaf, pur ?
 Rhaid fod ; a theimlaf beunydd ryfedd wir
 Yr "arall ddeddf" ymwnêl â mi o hyd,

Reola'm hoes, fel oes apostol gynt,
 Er cryfed ydyw grym Deddf Ysbryd Duw,
 Sy'n gweithio yn fy Hunan Goreu, ddydd
 A nos, ac am fy nghodi o fy ngwarth
 I ryddid gogoneddus meibion Duw !
 Beth yw'r esboniad ar fy mywyd bach
 Sydd heddyw'n fwy, pan welaf enfawr frwydr
 Yr Anweledig Fyd, rhwng gallu'r Fall
 A gallu'r Nef, yn mynd ymlaen o hyd
 Ar faes fy mywyd ? A ddaw goleu clir
 Ar ystyr bywyd im, tu hwnt i'r llen ?

Tu hwnt i'r llen, canfyddaf nad wyf fi
 Yn gynnrych blwyddi byr anaeddfed oes.
 Mae cenedlaethau'n cerdded ynnof fi !
 Mae'm tad, a'm mam, a'm teidiau ar y stryd,
 Bob tro y croesaf riniog ty fy mam !
 Meddwyn oedd hwn, aniwair ydoedd hon,
 A lleidr, fe ddichon, oedd hen dad i mi.
 Dichon im gael y cariad ynwyf sydd
 At bob prydferthwch, ac at liwiau heirdd,
 O'r hen nain hono, ddaeth i Ddyffryn Nedd
 O diroedd Ffrainc. A diau gennyf hyn—
 Adlais o'r hen dribannau genid gynt
 Gan deidiau imi yn y Crynant tlws,
 O gylch y tân, nosweithiau'r gauaf oer,
 Yw hyn o gân, er nad oes yma hoen
 A nwyfiant bywyd dedwydd Cymru Fu !
 Ac O, o dy fy mam, ces deimlo grym
 Nerthoedd y byd a ddaw. Mae'r teidiau fu
 Yn codi'r capel, pan oedd gelyn du
 Yn torri'r heddwch, ac yn tarfu'r praidd
 O'r pentref bychan, tawel yn y wlad—
 Y teidiau a ddaliasant yr ystorm,
 Y teidiau distaw-gadarn, gyda'r gwawl
 Cyfrin a Cheltaidd yn eu llygaid du,

Na roddwyd allan gan oleuni mwy
 Byd goleu glân—o fewn fy mywyd-I
 Drachefn yn byw, ac nid yw'r marw byth
 Yn marw ! A phan yw fy ieuanc ffydd
 Yn gostwng áden waedlyd, y mae grym
 Hen dad fu mewn tywyllwch, ond a ddaeth
 I oleu Duw, i'w deimlo yn fy mod,
 Yn nerthu'm hedyd i ehedeg fry
 I awyr ffydd, er gwaethaf enfawr rym
 Disgyrchiant moesol, a'm hanffyddol oes.
 Er gwaethaf twyll, caf nerth i garu'r gwir,
 I ymladd drosto, ie, hyd at waed,
 Yn nerth y rhai fu'n codi'r capel gynt,
 Sydd yn fy mywyd I drachefn yn byw !
 O ryfedd fod ! Ai dyma welaf fi
 Tu hwnt i'r llen ? Mae imi hanes hir
 Cyn dod i'r byd. Mae ystyr mwy i wir
 Y Dwyrain nag a feddyliaswn gynt :
 Y mae eneidiau'n camu, o oes i oes,
 I newydd fodau, ac i newydd fyd,
 I fyw yn well ! Mae cenedlaethau'n gwneyd
 Pob dyn ; ac nid wyf fi ond syniad mwy
 Nag oedd yn mywyd rhyfedd achres hir,
 Ond meddwl newydd Duw yn toddi'n un
 Ag hen feddyliau iddo, ac â llu
 O hen feddyliau diafol ymhob un
 O'm teidiau da a drwg, i wneuthur bod
 Newydd a meddwl newydd yn y byd !
 Mi welaf fod chwareufa pob dyn byw
 Yn cael ei chario ganddo i bob màn.
 Os ydyw ef yn medru "llawer rhan,"
 Rhannau a fuont *fywyd* rhai o'i lin
 Ydynt i gyd : y mae pob dyn yn fyrdd !

Tu hwnt i'r llen, mi welaf fwy nâ threm,
 Yn awr, ar frwydr fy mywyd, hyd fy oes.

Mae'm Hunan Du yn gwaedu'm Hunan Pur
 A blaen ei aden nerthol, yn y nos
 Sy'n dod liw dydd, sy'n aros mwy nâ dydd
 A nos, fel pla yr Aifft. Mi wylaf dro
 Wrth weled gwaed fy ysbryd pur tan goed
 Yr ing, lle na bu cysgod aden wên
 Yn hollti'r gwyll er's dyddiau. Ond, ar hyn,
 Gwelaf fy Ngoreu Fod yn codi o'i waed,
 A'i hen, hanfodol nerth yn harddu ei wedd,
 Yn rhoi fy Hunan Du ar bren y groes.
 Ar hyn, 'rwy'n llawenhau, cyn troi yn brudd :
 Ni bydd y diafol farw ar y pren !
 Drachefn, drachefn, mi welaf uffern fawr,
 A Nefoedd fwy, mewn dwys wrthryfel maith
 O fewn fy enaid. Ac nid breuddwyd yw :
 Yr wyf fy hun yn ddiabol ac yn Dduw !
 Yn ddiabol mewn darfodedigaeth hir,
 Yn Dduw sy'n torri bedd i Lusiffer !

Ond beth yw ystyr fy myfyrion dwys ?
 Beth yw'r egwyddor fythgysylltiol ddofn
 Sydd dan y cyfan ? Pa le 'rwyf yn awr ?
 Mae seiliau'm bywyd bellach ger fy mron ;
 Mae allwedd fawr dynolryw yn fy llaw.
 Mi welaf ystyr hanes rhyfedd dyn—
 Ei grefydd ef, ei Dduw, ei gysegr teg,
 Ei aberth ef yn iawn, tu hwnt i'r llen ;
 Tu hwnt i'r llen, mi welaf Grist yn dod !

III.

“ Yr wyf yn meddwl, felly 'rwyf yn bod ! ”
 Ond nid wyf fi erioed ; nid oeddwn ddoe ;
 Nid wyf ddibynol ar fy hunan chwaith.
 Edrychaf o fy amgylch i bob man,

Ac wele lun Dibyniaeth. Mae pob dyn,
 Pob bywyd, mae y cread trwyddo i gyd
 Yn fyth-ddibynol, medd fy rheswm im ;
 Effaith pob dim—pa le mae'r Achos Mawr ?

Tu hwnt i'r llen, mi welaf ddynol ryw
 Yn teimlo'r gwir a deimlais, ac o hyd
 Yn ymbalfalu am yr Achos Mawr
 Diachos—er na fynwn ddweyd, fel un
 Oedd ddall i'w ddwyfol fod ar hyd ei oes :
 "Crefyddol filyn ydyw dyn !" Mae mwy
 Tu hwnt i'r llen mewn dyn nâ chenfydd trem
 Gwyddor anffyddol, ac athroniaeth ddall.
 Offeiriad yn y dirgel ydyw dyn,
 Ac nid oes neb a wyr beth ynddo sydd,
 Ond Ef a'i gwnaeth. Mae ysbryd yn rhy fawr,
 Rhy ddwyfol i wyddoniaeth weld ei wedd,
 Rhy fawr, rhy ddwyfol, fel y Duw nas gwêl
 Y wyddor na chanfyddodd fwy nâ'i hun.
 O, mae yr Hunan Dwyfol ynnom sydd
 Yn gweld y cread, ac yn dod, cyn hir,
 I weld ei lun ei hunan yn y drych
 A roddes Duw yn natur iddo ef !
 Yn dod i weld yn nrych ei hunan mawr,
 Drachefn, y mwy nâ'i hunan ymhob mân !
 I weld y berth yn llosgi, ac i weld
 Y Duw sydd ynddi'n fflam ! Tu hwnt i'r llen,
 Mi glywais ddwyfol gân y cread mawr,
 Ac adrodd darnau gofiawr wnafl yn awr :

“Addolwr yw dyn,
 Erioed, erioed ;
 Cwyd allor ddilun
 I'w Dduw yn y coed ;
 Neu ar gopa y mynydd
 O olwg pob llygad—
 Ond llygad ei Dduw ;

A'r tân yn fyth-newydd
 Ddyrchafa'i ddymuniad
 Mewn fflam-weddi fyw.

“ Pa beth ydyw hyn
 Ond deddf ei fod ?
 Mae ei ysbryd mor wyn
 Pan gynta'n dod
 I gysegr y cread,
 I lygad goleuni
 Y nefoedd fawr ;
 Fel mae yr offeiriad
 A'i dân ar y meini
 Yn llewyrch y wawr !

“ Ond pwy a gaiff ef
 I ddweyd pwy yw
 Preswlydd y Nef,
 A pheth yw Duw ?
 Mae'r haul yn gynnes,
 Neu'r lloer yn gwenu
 Ar noson ddu ;
 Neu'r daran o'i lloches,
 A'r mellt yn saethu
 Fel gwallgof lu.
 Mae gwyrthiau yn cylchu
 Y baban-ddyn,
 I'w swyno, a'i synu
 A'i ddeffro o'i hun,
 Daw rhithiau meddyliau
 Fel cwmwl draws cwmwl
 Preswylant wybrennau
 Newyddion ei feddwl !
 A'r meddwl a ffurfia,
 Cyn meddu dadguddiad,
 Y bod a addola—
 Ei swynol bêr syniad !

“TU HWNT I'R LLEN.”

“Addolwr yw dyn,
Cyn meddu dadguddiad,
Addola ei syniad,
Addola ei hun !

“Ar draethau pell
Gogleddwlad lon,
Preswylfa pell
Y daran ffrom,
Galluoedd y nefoedd
A ddeuant yn anwyl
I feddwl gwyllt ;
Thor fawr sy'n y gwyntoedd,
A swm ei forthwyl
Yw'r taran-fyllt
Sy'n rhwygo y nennau,
A'i wylltnwyf addolir ;
I ysbryd wybrennau
Yn awr ymdebygolir.
A'r myrddiwn agweddau
A wisga y cread
Sydd briodoleddau
I dduwdod y syniad !
A'r syniad eangir—
Dychmygir am Nefoedd,
Gwyllt Nefoedd a lenwir
Ag arwyr dewr luoedd.
A'i syniad ei hun
Yn awr ddylanwada
Yn ol ar y dyn,
Fel beunydd dymuna
Gael trengu ar grwydr
I geisio helwriaeth,
Neu 'nghanol y frwydr
Yn safn ofnadwyaeth !

“Yn Hellas y De,
 Rhwng ynysoedd diri
 Sy'n chwareu â hi
 Tan y dynerlas Ne,
 Fel plant yn ymlonni
 O amgylch eu mam,
 Tra'r môr yn ymdonni
 Am hapus lam,
 Trigolion llygeitu
 Y brydferth wlad
 I'r deg Aphrodité
 A roddant fawrhad :
 A'r Prydferth, yn swynion
 Y dduwies, sydd
 Yn gwneyd y trigolion
 Fel hawddgar angylion
 Attica rydd !

“Addolwr yw dyn ;
 Cyn meddu dadguddiad,
 Addola y syniad
 A dry yn ddylanwad
 Drachefn arno'i hun !”

IV.

Ond Hunan Goreu pob dyn byw sy'n dod
 A'i deyrnged at y Bod addola ef ;
 Tra yw yr hunan arall megys diafl
 Yn gwawdio wrth yr allor yn barhaus.
 Allor ? Pa beth yw allor ? Pa beth yw
 Yr ystyr uwch sydd iddi ? Oni chaf
 Yr ystyr yn dod allan trwy y wisg ?
 Ai ni ddaw'r ystyr uwch o'r ystyr “uwch ?” *
 Ai nid cyfryngydd yw rhwng Duw a dyn

Ymhob cenhedlaeth? Y mae Aberth byw
 Yn enaid pob addoliad, er pan ddaeth
 Abel a'r goreu fyn o blith ei braidd,
 I foddio'i Dduw, a boddio'i uchaf Hun.
 Mae dyn am oesau'n rhoi y goreu oll
 O'i anifeiliaid ar allorau'i Dduw ;
 Yn gwneyd pob aberth, am mai Hunan yw
 Enaid pob pechod, ac egwyddor fawr
 Bywyd yr isaf fod. A minnau sydd
 Am rod-di f'hunan isaf ar y coed,
 Yn awr mewn canrif oleuedig, ddofn ;
 Ac am i'r tân ei ddifa 'ngwydd fy Nuw,
 Er mwyn i'm hunan goreu fythol fyw,
 Yng ngoleu Hunanaberth Mab y Dyn !

Tu hwnt i'r llen, mi welaf syniad pur
 Y genedl gynt yn ymddadblygu o hyd ;
 Yn mynd yn allwedd hanes dynol ryw
 A gwareiddiedig fyd. Os yn y dydd
 Rhoed syniad llywodraethol i bob hil,
 Y rhoed y Prydferth i lywyddu Groeg,
 A Gallu i lywyddu Rhufain falch,
 A Chân i lywodraethu Gwalia Wén,
 Fe roddwyd syniad dyfnach i un hil—
 Y ddewisedig hil—y syniad ddoi
 Yn sylfaen bywyd dwfn cenhedloedd byd.
 Prydferthwch Israel yw Prydferthwch Duw,
 A Gallu Israel yw Ei allu Ef,
 A'i goreu Gân yw moliant Ior y Nef :
 "Canaf i'r Arglwydd ganiad newydd, pur !"

Mi welaf Ior y Nef yn rhoddi i'r hil
 Ddewisol y dadguddiad dwyfol fu
 Yn nerth ei bywyd—y dadguddiad sydd
 Yn codi holl genhedloedd byd i fri

Sydd uwch a phurach, o'i gofleidio ef;
 Yn gwneyd i Rinwedd dyfu yn y drain,
 Yn gwneyd i'r anial wywo, nes yn ardd
 O flodau'r nef! Os yw y cenedl ddyn
 Yn byw ei syniad byw, mae Israel hoff
 Yn cael ei dewis er cyflwyno i fyd
 Wybodaeth newydd, ddofn, a dwyfol bur:
 "Myfi sydd Dduw, a sanctaidd ydwyf Fi!"
 Medd llais o'r nef: "A chenedl sanctaidd fydd
 Fy Israel yn y byd. Neillduwch ddydd
 O saith i Mi, ac adnewydder chwi;
 Enwaeder eich calonnau ger Fy mron.
 Boed teulu Lefi yn offeiriaid im,'
 Ac na chyflwyned arall aberth mwy;
 Ac na chyflwyner ond anifail glân,
 Dinam, gan feibion Lefi bur i Mi—
 Anwiredd a gasëais, medd eich Duw!"
 Mi welaf y drychfeddwl yn dwyshau
 Y genedl waraidd-wyllt. Mae pechod mwy—
 Pechod!—yn ffaith ar lenni ei henaid hi!
 A dyma ddechreu cyfnod newydd byd,
 A dyma ddechreu Nefoedd ar y llawr,
 A'r mynd—ofnadwy fynd!—tu hwnt i'r llen,
 I gwrdd â sanctaidd Dduw gerbron yr arch;
 A pharotol i'w gwrdd tufewn i'r llen
 Mewn gwlad ddibechod, gyda chalon bur.
 Pechod! Gwyr Israel beth gyflwyna'r gair;
 Ac yn ei oleu ef, sy'n oleu byth
 Gan oleu sanctaidd Dduw, y sudda'n fwy
 I ystyr dyfnach bywyd. Mae y *gwae d*—
 Y gwaed, y gwaed, llochesfa'r bywyd cêl,
 Y gwaed sy'n peri arswyd heddyw i fron
 Y gwaraidd-ddiwylledig, arswyd mwy
 I'r gwaraidd-wyllt—yng ngoleu newydd Nef
 Yn gysegredig! Rhaid cael bywyd drud,
 Cyn daw maddeuant Duw. Tu hwnt i'r llen

Mi welaf Israel wedi teimlo'r oll
 O'r newydd wir yn ddwys, ac wrth ei gwaith
 Yn adeiladu'r tabernacl o goed,
 A delw'r syniad ymhob astell ddrud ;
 A'r galon newydd ymhob rhan o'r gwaith.
 Gwelaf offeiriaid yn eu gwisgoedd glân,
 Bob dydd o fewn i'r cysegr, a phob un
 Yn dwyn ei aberth yn ei dro at Dduw.
 A gwelaf pa mor ddwfn yw'r syniad dwys
 Am bechod ar galonnau'r ethol hil :
 Daw'r aberth am ganrifoedd yn ei ddydd,
 Ac ni ddiflanna'r hen barchedig ofn
 O fronnau'r plant, ar ol i'r tadau fynd !
 Mae taran Seina yn eu mynwes hwy
 Yn swnio beunydd, trwy yr oesau oll ;
 Beunydd yn dweyd : " Ofnadwy ydyw Duw
 Mewn purdeb a chyfiawnder, ac ni ddaw
 I'w wydd, yngwisg ei bechod neb o'n hil,
 Ac ni ddaw'r un offeiriad, ond drwy waed ! "

Ond O, y sancteiddiolaf ! Lle mae Ef
 Fu'n arswyd ar Ei Seina, fu a'i lef
 Yn daran ffrom, a'i drem yn fellten fyw,
 Byth yn preswyllo rhwng cerubiaid pur
 Gysgodant arch y llechau ! Lle mae Ef
 Yn llawn ogoniant ei Seceina claer
 Yn goleu'r lle â'i wisg o burdeb gwyn !

Dychymyg Israel grëa yn ei ofn
 Plentynaid, y darluniau gawsant le
 Ar ei chydwybod dyner, flwyddi hir :
 " Ofnadwy ydyw Duw ! Ofnadwy yw
 Y Sancteiddiolaf lle preswylia Ef !
 Ofnadwy ydyw pechod dynol ryw !
 Ofnadwy gwaith yr archoffeiriaid sydd

I dynnu'r llen yn ol ; i fynd, un waith
 Bob blwyddyn, ger bron Duw yn achos dyn !
 Tarewir ef yn ddall gan oleu'r lle,
 Neu gweddnawidur ef, fel Moses bur
 Ar gopa Seina, gan wynebpryd Duw !
 Tu fewn i'r llen, tu fewn i'r llen, mae'r Ior,
 A'i burdeb yn preswyllo, gyda'r arch,
 A'r dengair deddf ! Ac O, gwahanlen fawr
 O bechod Israel sydd rhwng Duw a dyn !"

v.

Eto, nid gwaed yr anifeiliaid fyrdd
 Gochant allorau'r cysegr, wnaiff yr hil
 Yn sanctaidd-brydferth ger bron sanctaidd Dduw !
 Tu hwnt i'r llen, mae ysbryd ymhob un
 O'r myrdd aberthau hyn ! Y mae pob un
 Yn broffwydoliaeth eglur. Mae pob un
 Yn dweyd, i'r neb a glyw, fod Aberth Mwy
 Yn sylwedd i'r aberthau oll yn dod.
 Nid ydyw Duw yn gwawdio dyfnaf fod
 Y genedl, nac yn creu gobeithion gânt
 Eu dryllio'n chwilfriw. Mae'r aberthau oll
 Fel ffyn yr ysgol ar y ddaear ddu,
 Yn cymell Israel goreu pob dyn byw
 I esgyn fry i nef yr ystyr uwch !
 Cysgod yw'r offeiriadaeth, medd pob gwisg,
 Cysgod yw'r sancteiddiolaf claer ei hun ;
Mae llen tu hwnt i'r llen ! Gwyn fyd a wêl
 Tufewn i'r llen sydd byth tu hwnt i'r llen !
 Yw'r allor heb ei hystyr ? A yw dydd
 Y cymod roddodd Duw i'w genedl hoff
 Anwiredd erchyll ? Ac a fu i Dduw
 Ddadblygu syniad yn yr Israel dwys
 O echryslonrwydd pechod, er ei gwneyd
 I fyw mewn uffern fwy nag uffern fawr,
 Heb obaith am ddiangfa rhag y fflam

Gyneuodd iddi ei hun â goleu Duw ?
 Ai nid oes Canaan gobaith iddi byth,
 Er mai tuag ati cychwynasai hi
 A Moses yn arweinydd? Fydd i Dduw
 Ei dwyn i Seina, er ei chadw'n swm
 Y daran fawr a'i lletha'n fwy nâ'r Aiff ?
 Os diafol ydyw Duw, efelly bydd !
 Ond " Sanctaidd ydyw Ef " yw'r llef a gwyd
 O ddyfnder cydwybodau'r ethol rai
 O'r hil; ac felly ânt tu fewn i'r llen,
 A chânt y weledigaeth. Gwelant drem
 Ar sylwedd y cysgodau uwch yr arch !

A dyma ystyr hanes Israel Duw ;
 Mi 'gwelaf ef yn glir, ar ol i'r wisg
 O ffeithiau dreulio'n deneu yn fy ngwydd.
 Yn awr, fe saif yr ysbryd ger fy mron
 Mewn noethder gogoneddus : gwelaf ddyn
 Yn *deffro* i sylweddau dyfnaf Duw,
 Ar ol y weledigaeth am y dydd
 Heb nos, a ddaeth liw nos i'r alltud prudd
 Orffwysai'i ben ar garreg arw Luz !
 Mi welaf ddyn y weledigaeth glir
 Trwy'r oesau'n rhoddi i fyny'r garreg wên
 Yn golofn newydd deml ym Methel Duw !
 Yn tywallt arni olew—olew pur
 Gorfoledd, am orfoledd bery byth !
 Mi welaf ddyn yn esgyn ysgol Duw,
 Yn disgyn, ac yn esgyn fry drachefn
 At ffurfafennau lle mae Byw yn cael
 Ei ystyr, a lle mae'r ysbrydol pur
 O amgylch pob preswilydd dedwydd byth !
 Ond O, tufaes i'r llen mae dyn o hyd ;
 Mae'r ysbryd yn y cnawd o hyd yn byw,
 Er mwyn apelio at synwyrâu pwl ;
 A'r byd yn caru'r wisg, yn rhoddi ei fryd

Ar geisio'r marw ymysg y byw o hyd.
 Tufaes i'r llen mae'r archoffeiriaid oll,
 Pan ânt tufewn i len eu tabernacl!
 Nis gallant ddirnad ystyr dyfnaf Byw,
 Ni weddnewidia'r arch pan ânt i'w gwydd,
 Ni chlywant, yn y sancteiddiolaf, swm
 Cerubiaid byw uwchben cerubiaid aur
 Yn canu cydgan prynedigaeth Crist!
 Pwy â tufewn i'r llen, i ystyr gwir
 A dyfnach bywyd Duw? O, pwy a â
 Tufewn i'r llen sydd byth tu hwnt i'r llen?



RHAN III.—BYWYD.

I.

Brysiat o'r diwedd am hapus drem
 Ar Fywyd, yn dyfod o Fethlehem.

Gwelaf yr Ior fu yn cysgu yn hir
 Mewn blodau amryliw hyd feusydd y tir—
 Fu fel yn breuddwydio yn hyglyw ynghân
 Myrdd o berorol adar mân—

Yr Ior a ddeffrôdd o'i gwsg mewn dyn,
 Deffrôdd i edrych arno'i Hun—

Yn codi o'r diwedd i ystyr Byw,

Gan ddatgan mewn syndod: “Nid dyn wyf ond Duw!”

Yn ymwybodolrwydd y Perffaith Ddyn

Mae Duw yn dyfod ato'i Hun

Drachefn ar y ddaear. Mewn Mab yn awr

Gwêl lun perffeithderau Ei Hunan Mawr!

Gwirionedd, gwirionedd a ddaeth i'r byd!

Gwirionedd yn lle y cysgodau, gyhyd

Fynegent ei ryfedd ddyfodiad Ef—

Ac nis gellir cysgod heb sylwedd o'r Nef!

Edrychaf i fyny i blith y sêr,
 Ac O, mor ddwyfol yw blodau fy Ner !
 Mor ddwyfol, ac eto mor *ddynol* y'nt hwy !
 Ac ni wnant broffwydo am Un sydd Fwy ?

Eistedd yr wyf, yn y gwanwyn gwyrdd,
 Yng nghanol perarogl blodau fyrdd ;
 A'r blodau o'm hamgylch fynegant y gwir
 Grybwylla y sêr i'm henaid yn glir.
 Beth ydyw blodeuyn ? Mor ddwyfol yw ef !
 Mae dalen o'i wir ar orsedd y Nef !
 Mor ddwyfol ! Mae cartref ei hanfod yn Nuw !
 Mor ddwyfol, ac eto mor ddynol yw !
 Mor ddynol ! Mae'n toddi i'm hysbryd yn awr,
 A'r ddau sydd yn toddi i'r Ysbryd Mawr !
 Mi welaf y gwir yn rhedeg yn glaer
 Trwy bob ymddanghosiad fel gwythen aur.
 Sibrydir am Dduw yn dyfod yn ddyn
 Yn yr ymddangosiadau diri bob un.
 Mor ddynol o brudd yw yr eos dlos,
 Ac O, mor ddwyfol yw'r ddynol, bob nos !
 A phan yw yn gorffen, ei chanig lon,
 A'r pigyn yn gwanu ei churiol fron,
 Ai nid aiff fy meddwl at Fab y Dyn—
 Yr eos a ganodd ei farwnad Ei Hun,
 Cyn myned i'r ardd ar y Pasglawn loer,
 A'i galon yn gynnes, a'r byd yn oer ?

Beunydd i'm henaid, mae popeth sy'n bod
 Yn dweyd fod y Dwyfol a'r Dynol yn dod
 I fyw mewn bywyd dihalog mewn byd
 Sy'n fil o dafodau i'w Fywyd o hyd !

Ond ai nid fy zhybiau fy hun yw y rhain ?
 Ai nid wyf yn darllen mewn blodau cain,
 A sêr prydferthion fy meddwl fy hun ?
 Ac ai nid drychau im weled llun

Fy meddwl yw'r blodau a'r sêr diri?
Cân eos—onid cân fy enaid yw hi?

Adgofiaf bur eiriau fy lili, cyn hyn,
Pan drôdd yn dafod i ysbryd gwyn;
Adgofiaf fy mhroffes, pan lefais I:
“Myfi wnaeth y lili, a'r lili fyfi!”
Y gwir sydd yn fy enaid yn byw—
Onid gwir sy'n bod y tuallan im' yw?
Dychwel dy Locke iddi ei le yn awr,
A thynn, fy meddwl, dy Hegel i lawr.
A chofia hen eiriau'r athrenydd ffri
Aeth, drwy Gyfeillgarwch, yn gyfaill i ti:
“Ni wêl dy lygad ond yr hyn y daw
A gallu iddi ei weled, mewn un mán!” *

Yn awr, mi welaf nas gall y sêr
Fynegi y dwyfol a'r dynol pêr
Drwy drawsylweddiad o feddwl dyn—
Drwy'r sêr daw dyn iddynt ynddo'i hun!

A phe bae yn wir mai fy meddwl sydd
Yn taflu ei gysgod ar flodau blydd,
Ai ni fyddai'n wir i mi, er hyn,
Fod proffwydoliaethau am Ddelfryd Gwyn,
Am ddyn perffaith-gwbl wedi deffro o'i hun
I weld mai Duw ydyw, *ym mywyd pob dyn?*
Mae'r dwyfol yn agor ei lygad o hyd
Yn ngweledigaethau pob dyn trwy'r byd.
O Adda hyd Ioan, y mae pob bod
Yn dweyd: “Ar fy ol, mae Un Mwy yn dod!”
Pe nad yn y blodau a'r sêr bob yr un,
Mae'r dwyfol a'r dynol ym mywyd pob dyn!

O ddieithr wirionedd, ar brydiau, im' yw
 Rhyfedd Gnawdoliad Anfeidrol Dduw !
 Ond ai ni fu Duw, trwy yr oesau i gyd,
 Yn gwneyd ymgnawdoliad o newydd o hyd ?
 Ymgnawdoliadau o Brydferth Dduw
 Yw'r gwanwyn, a'r myrddiwn flodion byw ;
 Ymgnawdoliadau o Dduwdod sydd
 Fythddedwydd yw swynol gantorion y gwydd ;
 Ac ai ni cherais mai meddwl yw
 Dyn goreu pob dyn ym mywyd Duw ?
 Pa ryfedd im felly os yw y Bod
 Fyngagai yn hir Ei ddyfodiad, yn dod ?
 Ai nid yw'r rhannau a dderbyn dyn
 Yn dweyd y daw'r dydd pan y daw Ei Hun ?
 Y dydd ymgnawdola y Cyflawn Dduw
 I wneuthur y cyflawn Ddyn—sy'n Byw ?
 Brysiaf o'r diwedd am hapus drem
 Ar Fywyd yn dyfod o Fethlehem.
 Tu hwnt i'r llen, doed y bywyd gwir
 Arweiniodd y Crist, i fy meddwl yn glir !

II.

O fywyd dihalog, yng ngoleu'r nen,
 O fywyd dihalog, fel lili wén !
 Ac O fywyd hawddgar, fel rhosyn gardd—
 Y Gwyn a'r Gwridog yw Iesu hardd !
 Lili'r Dyffrynoedd yw Mab y Nef,
 A Rhosyn Saron yn wir yw Ef !
 O fywyd dros ddyn, a bywyd i Dduw,
 O Gynllun Fywyd i ddynol ryw !

Mi welaf i ystyr Ei Seren Ef,
 Sydd, trwy yr oesau, ar gant y nef.
 Seren y Dwyrain yw Seren Crist,
 Seren Gwirionedd i fyd twyll-drist,

Seren Gwirionedd yn nwyrain byd !
 Seren Gwirionedd y dwyrain o hyd !
 Mae sêr cyfundrefnau y byd yn troi
 I gyd i'r gorllewin, yn gorfod ffoi
 I dir eu machludiad, am fod y Gwir
 Oleuni yn pefrio arnynt yn glir ;
 Ac yn eu gwarthruddo, 'r ol esgyn i'r Nef :
 Ond Seren y Dwyrain—Ei Seren Ef !
 Am byth yn codi yn uwch o hyd !
 Am byth yn meddiannu dwyrain byd !
 A'r dwyrain feddianna Ei Seren Ef
 Nes dêl i awr anterth yn Nef y Nef !

I'r byd sydd yn gorwedd rhwng meini du
 O gaddug, tywynna'r goleuni cu ;
 A bywyd ddychwela i'r meirw byw,
 Bywyd yn llawn o orfoledd Duw !

Os nad ydyw Crist Ei Hun yn Dduw,
 Efe ydyw bywyd dynol ryw !
 Os nad yw yn Uniganedig y Nef,
 Efe yw'n bythnewydd ysbrydiaeth gref—
 Y newydd ysbrydiaeth i edrych fry,
 Y bywyd yrr fywyd i bobman lle try !

Ond Uniganedig y Nefoedd yw,
 Ac yn Ei fron mae gorfoledd Duw ;
 Yn awr, deued ystyr Ei einioes wên
 I'm henaid, o Gana, tu hwnt i'r llen !

Mor brin yw adnoddau dedwyddwch y byd !
 Mor gryf yw yr awydd am londer o hyd !
 Er hyn, uwch y gwleddoedd dirif bob un,
 Dwed ysbryd pryderus : "'Does ganddynt mo'r gwin !"

O Mara ac Elim, fe gyfyd y llais,
 O Escol y gwinwydd, fe gwyd yn barhaus ;
 Ac O, ar ol meddu y wlad sy'n lli
 O fêl ac o laeth, adgyfyd hi
 Yng nghanol y deml o'r sobraf fin,
 Mewn acen bruddglwyfus : "Does ganddynt mor gwin !"

Ha ! Iesu sy'n troi y dwfr yn win !
 Efe rydd lawenydd diball wrth bob min ;
 Efe rydd y wledd sydd yn para yn wledd,
 Pan wrida y dwfr, yngwrid Ei wedd ! *
 Gwyrth gyntaf yr Iesu mynegwyrth yw
 O fywyd ardderchog a melus Mab Duw ;
 Ioan a welodd i mewn i'w Nef :
 Dechreu egluro'i ogoniant mae Ef !
 Galarwyr fu'n crymu dan bwysau cur,
 A welaf yn dod i orfoledd pur.
 Mi welaf y cloff yn llamu fel hydd,
 A thafod y mudan yn rhedeg yn rhydd !
 Mi welaf y lluoedd yn llawen eu llef,
 Yn moli am fywyd Eneiniog y Nef.
 Beth ydyw ystyr y moli cytun ?
 Iesu sy'n troi y dwfr yn win !

A lleidr a welaf ar groesbren, un dydd,
 Yng nghanol ei warth yn marw yn brudd.
 Tra'r dyrfa yn gwatwar, adnebydd y Crist
 A ddaw yn orfoledd i'w enaid trist ;
 O ganol ei ingoedd, ar Iesu fe lef,
 A'r ateb yw : "Heddyw, cei ganol y Nef !"
 Cyn croesi i'r eilfyd, ar ingol fin,
 Iesu sy'n troi y dwfr yn win !

Beth oedd gorfoledd ofnadwy fy ngwlad,
 Pan dorrodd y newydd am Feddyg Rhad

* "Vidit et erubuit nympha pudica Deum."—CRAWSHAY.

Arni'r tro cyntaf? Pan ddaeth yn fyw
 Wedi oesau o gwsg i sylweddau Duw?
 Beth oedd hen hwyliau fy nhadau fy hun?
 Iesu yn troi y dwfr yn win!
 A dyma hen emyn yn dyfod i'm clyw
 O'r capel cyfagos, gan fiwsig yn fyw;
 Cysegrwyd ef filwaith gan ddaagrau llon,
 Ac mae ei ysbrydiaeth yn tanio'm bron.
 "Llefara" ac "addfwyn" a ddônt i'm clyw
 Yn gynnes, ac yna yr "Iesu" yn fyw;
 Nes unaf i foli fy Ngheidwad cun,
 Nes canaf am "eiriau" sydd "fel y gwin!"

Mor *hawdd* mae yr Iesu yn byw o hyd!
 Ei reddf ydyw byw Bywyd Perffaith i'r byd.
 Nid holi'r dirgelion mae Iesu, Mab Duw,
 Ond ateb dirgelion yr oesoedd—Byw!
 Ac O, ar ol bywyd y Perffaith Ddyn,
 Daeth byw yn reddf bywyd i lawer un!

Mi welaf athronydd, mewn oes o gur,
 Yn chwilio dirgelwch y bywyd pur;
 Wrth chwilio dirif gyfundrefnau y byd,
 Ar drigfa yr uchaf ddedwyddwch mae'i fryd.
 Ymboeni mae beunydd; ni wyr beth yw hedd;
 Heb feddu'r dirgelwch, mae'n syrthio i'r bedd!

Mi welaf hen wraig yn byw ar y plwy—
 Hen wraig anllyth'renog, na welodd fwy
 Nâ'i Beibl Cymraeg, a'i Salmydd per—
 Sy'n gorfoleddu yng ngwenau ei Nêr!
 Cana ei Salmydd nos a dydd,
 Ac nid yw, dan gwmwl, yn wylo'n brudd;
 Ond pan ddaw hiraeth am weled gwedd
 Melusydd ei bywyd, yng ngwlad y wledd!

Am uchaf Dedwyddwch ni chyfyd ei chri ;
 Mae hwnnw'n ei mynwes yn tonni fel lli ;
 Arhosed yr haf, doed ystormus hin,
 Mae'r Iesu yn troi y dwfr yn win !

O wynfyd o fywyd, difai i'r nef !
 Y Tad mewn gorfoledd a gwyd ei lef ;
 "Hwn yw fy Mab, o dan flodau Ei fri,
 Ynddo fe'm bythol foddlonwyd I !"
 Mae'r Hunan Isaf yn Iesu, bob awr,
 Yn esgyn i'r Hunan Uchaf Mawr !
 Ewyllys Ei Hunan yn gyfan yw
 Ewyllys y Nefoedd, ewyllys Ei Dduw.
 Ymlaen â beunydd, dan oleu'r nef,
 Ac ni chwyd tonn yn Ei fynwes Ef.
 Pan gwsg yn y llong, ar derfyn Ei ddydd,
 Tawelwch mawr gweithiwr ynddo sydd !
 Ac eto, yng ngwyneb Ei ingol awr,
 Canu yn felus mae'r Perffaith Mawr !
 Tawelwch digynnwrf a wnêl i'r Crist
 Ganu ar ffin Gethsemane drist.
 O Hamdden uwchddynol y Diwyd Pur !
 Ddwyf Hunanfeddiant, yng ngwyneb fath gur
 Ryfedd ysbrydiaeth i ddynol ryw !—
 Duwdod hyderus sydd yma yn byw !

III.

Weddnewidiadau ! Mae bywyd o hyd
 Yn cael ei weddnewid trwy'r cread i gyd.
 Edrychais ar lili yr ardd, pa dydd,
 Ac nid oedd yr ysbryd yn fyw ar ei grudd ;
 Heddyw, mae'i hysbryd yn toddi i'm bod—
 Dydd gweddnewidiad sydd wedi dod !
 Gwelais lindysyn, tu hwnt i'r llen,
 A'i fywyd yn weddi am aden wên ;

Gwelais yr eilir yn awyr y nef—
Y weddi a'i gweddnewidiodd ef !
Mi welaf weledydd ar gopa'r bryn
Yn gwrando lleferydd ei Dduw yn syn ;
Gwelaf ddisgyniad y Proffwyd Byw—
A'i weddnewidiad sy'n wyneb Duw !

Bellach, esgynnaf i Hermon fawr,
A gweddnewidier ei ystyr yn awr ;
Gweddnewidier y mynydd a ddringais, cyn hyn,
Heb weled i ystyr y cwmwl gwyn !

Mi welaf yr Iesu, yn nyfnder y nos,
Yng nghanol gogoniant ei deml dlos
Ar gopa y mynydd ; a'i weddi gref
Sy'n boddi cerddoriaeth sêr y nef ;
Sy'n crynnu'r eangder i ryfedd gân,
Esgynna i'r Nefoedd yn wefr glân.
Ha ! Bywyd o weddi, yn nos y byd,
Oedd bywyd yr Iesu ! O hyd ac o hyd,
Ar gopa y mynydd y safai Ef
Yn uchaf y ddaear yn isaf y nef !
Ymwelwyr o'r Nef o'i amgylch y sydd—
Ond ai nid yw'r Nefoedd o'i amgylch bob dydd ?—
Pan ddringwn i ystyr uchaf Byw
Gwelwn y Nefoedd o amgylch Mab Duw !

Beth ydyw ystyr y Bywyd pur ?
Beth ydyw'r Proffwyd adnebydd gur ?
"Mab y saer ydyw !" medd lluoedd digred ;
"Mab Duw !" ddywed Pedr, heb wybod beth ddwed.
A ddaw yr esboniad ar ben y bryn ?
A fedraf fi weled trwy'r cwmwl gwyn ?

Gwelaf y dwylaw i fyny at Dduw,
Gwelaf y wyneb yn oleu byw ;
Gwelaf i ystyr tystiolaeth syn :
"A'i wisg oedd cynn wynnned â'r goleu gwyn !"

"TU HWNT I'R LLEN."

Iesu a gerddodd trwy ffosydd y byd,
Gadwodd Ei wisgoedd yn lân o hyd;
A'rgwr a sangodd yng ngwaelod y ffos
Sy'n wyn ar y mynydd, yn nyfnder y nos !

Ond ai nid yw Hermon yn uwch nâ hyn ?
A fedrai fi weled i'r cwmwl gwyn ?

"Gwnawn yma dair pabell !" medd Pedr, a'i lef
Fynega ddyhéad Iddewaeth gref
A newydd, ym mynwes y deuddeg gwan
Eu golwg, na welsant o'r Gwir ond rhan.
Cyfnodau rhyfeddol dadguddiad Duw
Gedwir ym mynwes disgyblion yn fyw :
Moses, sylfaenwr y grefydd wir,
Caed eto ei babell, a chaed hi'n hir ;
Elias, ddiwygiwr, adferodd drefn,
Wnaeth grefydd yn anadl einioes drachefn
Ym mywyd yr Israel, rhoer iddo ef
Ei babell yn ymyl y Crist o'r Nef ;
A rhodder i'r Iesu y babell fawr
Yng nghanol y pebyll arosol yn awr !

Nid Paul, y pabellwr, sy'n rhoddi ei fryd
Ar godi y pebyll, ond Pedr o hyd ;
Pysgotwyr fy ngwlad, hyd y dyddiau hyn,
Godant y pebyll ar bant a bryn.

Beth ydyw holl wirioneddau y byd,
A holl wirioneddau yr oesoedd ynghyd,
Ond rhannau o un Symudiad Mawr—
Gwirionedd tragwyddol y gyntaf wawr !
Trwy y bydysawd, o'r cyntaf ddydd,
"Bydded Goleuni !" yn cerdded sydd.
Mae popeth trwy'r cread yn bregeth fyw,
Ddengys ryw arwedd neillduol o Dduw.

Y cariad sy'n gochni mewn rhosyn gardd,
 Y cariad sy'n wynder mewn lili hardd,
 Y cariad sy'n fflam ym mynwes dyn,
 Y cariad sy'n burdeb ar aden gun
 Yr angel disglaerwyn—nid ydynt hwy
 Ond rhannau o ddwyfol symudiad mwy !
 Mae'r arddangosiadau yn filoedd i ddyn,
 Ar gopa y mynydd fe'u gwelir yn Un !
 Pebyll ! 'Does angen am bebyll yn awr—
 Mi welaf i ystyr y babell fawr !

Gwelaf y Nefoedd, ar ben y bryn,
 Yn taenu y babell o Gwmwl Gwyn !
 I'r Gwir, un babell yn unig rydd Duw,
 Arddengys yr holl symudiadau yn fyw.
 Elias a Moses a gânt eu lle,
 Yn ymyl tragwyddol Wirionedd y Ne.
 A'r ofnus ddisgyblion gânt le yn awr
 Yngwir gogoneddus y babell fawr !
 Dyfod mae hen wirioneddau y byd
 At Iesu, i dderbyn eu hystyr i gyd ;
 A'r holl wirioneddau newyddion sydd
 Yn derbyn eu hystyr yn llewyrch dydd
 Gwyneb Gwirionedd pob oes ynghyd—
 Iesu yw ystyr pob oes o'r byd !
 Rhannau o'r Crist a gyhoeddwyd gynt
 I'r Israel gan Moses, ar anial hynt.
 Rhannau o'r Gwir sydd yn fwy nâ phob oes
 Roes pob diwygiwr mewn gyrfa o loes ;
 A rhannau newyddion o'r Iesu sydd !
 I ddyfod trwy'r oesau dyfodol i'r dydd !
 Paham y rhoir pabell i Moses, nad yw
 Ond arwedd forèol o wir ei Dduw ?
 Paham i Elias, a saif yn lle
 Diwygwyr-broffwydi yr Iesu o'r Ne ?

Yng ngoleu yr Iesu y gwelir hwy,
 Yna sudda eu gwir yn y Gwir sydd fwy!
 Mae'r gair yn esboniad am byth ar bob Llef;
 Ymgyll yr ymwelwyr ymab y Nef,
 Ni welir ond Iesu yn unig yn awr—
 Efe yw'r Tragwyddol Wirionedd Mawr!
 Tu hwnt i'r llen, ar gopa y bryn,
 Gwelaf yr Iesu yn aros mewn gwyn!
 Yn weddnewidiedig wirionedd y byd,
 Yn ystyr yr holl symudiadau ynghyd!

IV.

Cenais ogoniant y cwmwl gwyn;—
 Beth am y cwmwl ar arall fryn?
 Y cwmwl orchuddia yr haul a'r groes?
 Beth yw ei ystyr mewn rhyfedd oes?

Ha! Gwelaf y syniad yn awr yn glir:
 Mae dau weddnewidiad yn fynych i'r Gwir.
 Y mae gweddnewidiad mewn nos ar y bryn,
 Y gweddnewidiad dan gwmwl gwyn.

Yn hwn mae y Nef yn cyfiawnhau
 Ei phrophwyd, yn hwn mae yn eglurhau
 Gwirionedd ei fywyd, yn nyfnder ei nos,
 Pan fyynn y byd ei suddo i'r ffos.
 Ond mae gweddnewidiad sydd fwy nâ hwn,
 A'i ystyr rhyfeddol yn awr a wn:
 Gweddnewidiad gwirionedd, ar ganol dydd,
 Yn y cwmwl du, ar y croesbren prudd.
 Aeth llawer i'r cwmwl gwyn yn hy—
 Ychydig sy'n myned i'r cwmwl du
 I gael eu gweddnewid! A'r Iesu yw
 Y Dyn ddaeth o'r cwmwl yn Fâb i Dduw!